Efallai mai’r datblygiad mwyaf arwyddocaol eleni oedd pasio Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae wedi cael ei ddisgrifio’n gywir fel mesur ‘arloesol’, a bydd yn golygu bod rhaid i Weinidogion roi ‘sylw dyledus’ i CCUHP wrth ddatblygu’r agenda ddeddfwriaethol. Ar 27 Mawrth 2012 cymeradwywyd y Cynllun Hawliau Plant, o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’r Cynllun Hawliau Plant hwn yn cyflwyno’r trefniadau a fydd gan Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau eu bod hwy, a staff Llywodraeth Cymru, yn cydymffurfio â’r ddyletswydd a roddwyd arnynt gan y Mesur – i “roi sylw dyledus” i hawliau plant, wrth ddatblygu neu weithio ar ddeddfwriaeth newydd arfaethedig, polisiau newydd arfaethedig ac unrhyw adolygiad neu newid i bolisi sydd eisoes yn bodoli.

Fe wnes i ymateb i’r ymgynghoriad ar y cynllun, gan amlygu meysydd yr oeddwn i’n teimlo bod angen eu cryfhau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pwysigrwydd natur annirprwyadwy CCUHP, a bod Gweinidogion yn derbyn cyfrifoldeb llawn am weithredu ‘dyletswydd sylw dyledus’ yn effeithiol, fel bod modd defnyddio’r ddeddfwriaeth yn gadarnhaol i wireddu hawliau plant yng Nghymru yn rhagweithiol;
- yr angen am ddeall yn glir natur a chwmpas egwyddor ‘sylw dyledus’;
- yr angen am gysylltu’r Cynllun yn benodol ac yn uniongyrchol â’r rhwymedigaethau ym Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011;
- yr angen am nodi trefniadau adrodd a monitro yn glir; ac
- edrych ymhellach ar y mecanweithiau sydd ar gael os na weithredir dyletswydd sylw dyledus.

# “We have come a long way in Wales and, while we have not quite reached our destination, I am proud of how far we have travelled.”

## Gwenda Thomas AM, Deputy Minister for Children and Social Services during the debate on the Children’s Rights Scheme under the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011

As we enter into the fourth National Assembly for Wales with new Assembly Members and a new government, a key challenge for me will be to maintain the focus and political profile on the issues facing children and young people.

In the same way, 2012 will see a new cohort of local councillors being elected across local authorities in Wales and I will be seeking to raise the profile of the needs of children and young people in Wales with them, as well as reminding them of their key responsibilities as corporate parents. Local councillors are in a privileged position of being able to represent and positively impact on the lives of children and young people in their locality. They will need to be able to engage with children and young people to identify and respond to those needs and also ensure that the services within their communities are being delivered effectively via their scrutiny roles. Councillors can play an important function in ensuring the statutory obligations on local authorities and the identified national policy priorities are being implemented as they should on the ground.

I will use this chapter to highlight some of the significant developments in relation to children’s rights in Wales between 1 April 2011 and 31 March 2012, starting with the Welsh Government’s ambitious legislative programme.

### Legislative programme

The legislative programme for Welsh Government includes numerous pieces of proposed legislation which directly impact on children and young people and could potentially uphold and progress the realisation of children’s rights in Wales. These include:

- Social Services (Wales) Bill
- Schools Standards (Wales) Bill
- The Structures, Governance and Special Educational Needs (Wales) Bill
- The Prevention of Youth Offending (Wales) Bill
- Children & Young Persons (Wales) Bill, which will aim to expand the role of the Children’s Commissioner for Wales and build on the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011
- The Housing (Wales) Bill

- The Domestic Abuse (Wales) Bill
- Organ Donation (Wales) Bill
- Cosmetic Piercing (Age of Consent) (Wales) Bill

As the children’s champion for Wales, I will be actively engaging to ensure that the interests of children and young people are considered and their rights respected as legislation is progressed.

Perhaps the most significant development this year was the passing of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. It has rightly been described as ‘ground-breaking’ and will see Ministers having to pay ‘due regard’ to the UNCRC in developing the legislative agenda. On 27 March 2012 the Children’s Rights Scheme, under the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, was approved by the National Assembly for Wales. This Children’s Rights Scheme sets out the arrangements that Welsh Ministers will have in place to make sure that they, and Welsh Government staff, comply with the duty placed on them by the Measure – to “have due regard” to children’s rights, when working on or developing proposed new legislation, proposed new policies and any review of, or change to, an existing policy.

I responded to the consultation on the scheme and had highlighted areas which I believed needed strengthening. These included:

- the importance of the non-delegable nature of the UNCRC and that Ministers take full responsibility of effectively implementing the ‘due regard duty’, enabling the legislation to be positively utilised for the proactive realisation of children’s rights in Wales;
- the need to clearly understand the nature and scope of the ‘due regard’ principle;
- the need to link the Scheme explicitly and directly to the obligations within the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011;
- the need to clearly identify reporting and monitoring arrangements; and
- further examining the mechanisms available if the due regard duty is not implemented.



Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol i lawer o'r pwyntiau, ac roedd y fersiwn derfynol a gyflwynwyd yn welliant sylweddol. Dangosodd y ddatl corff llawn ynghylch y fersiwn a gyflwynwyd unwaith yn rhagor y gefnogaeth ar draws y pleidiau i sicrhau bod polisiau Cymru yn troi o gwmpas CCUHP. Wrth dderbyn newidiadau yng nghyswllt datblygu'r mecanweithiau adrodd a herio ymhellach, dangosodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Llywodraeth yn barod i ddod i gysylltiad ag eraill er mwyn sicrhau bod y Mesur yn cyflawni manteision gwirioneddol.

Rydym i gyd yn derbyn bod rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith yn dir newydd, ond mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny'n iawn, ac yng Nghymru, mae cyfrifoldeb arnom i ddangos i'r byd bod modd i agwedd a seilwyd ar hawliau arwain at well gwasanaethau i blant a phobl ifanc, a bod cymdeithas yn elwa o agwedd felly.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddychwelyd at hyn ac ailwerthuso'n gynnar, a hynny yng nghyd-destun y cylch cyntaf o adroddiadau ym mis Ionawr 2013. Rwy'n edrych ymlaen at hynny, oherwydd elfen bwysig fydd trafodaeth ar sut mae ffurfioli rôl Comisiynydd Plant Cymru fel rhan o weithredu'r Mesur, yn ogystal â mecanweithiau herio ac adrodd eraill.

Y llynedd dywedais na allai'r Mesur fod yn well na'r ewyllys wleidyddol o'r ymrwymiad oedd ynghlwm wrtho. Mae'r arwyddion yn galonogol, ond mae'n rhaid cynnal y momentwm yn anad dim.

Wrth i'r Mesur hwn gael ei weithredu, rwy'n disgwyl gweld y corff deddfu yn chwarae ei ran yn craffu ar y Llywodraeth, ac Aelodau'r Cynulliad, yn rhinwedd eu swydd fel aelodau pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn galw Gweinidogion i gyfri o ran eu heffeithiolrwydd yn darparu tystiolaeth ynghylch sut y rhoddwyd ystyriaeth i hawliau plant a phobl ifanc ym mhorffolios Gweinidogion. Ond mae gwelliannau ymarferol i fywydau plant a phobl ifanc, gan arwain at ddeilliannau buddiol, yn hanfodol os yw'r ddeddfwriaeth hon i fod yn wirioneddol ystyrlon.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhaglen glir: bydd ffocws ar gyflawni. Ar ôl gwneud sylwadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar ddeinameg 'cyfoeth o bolisiau ond tlodi wrth eu gweithredu', croesawaf yr ymrwymiad hwn, er mwyn cau'r bwlch gweithredu a galluogi plant a phobl ifanc i brofi'r effaith gadarnhaol ar lawr gwlad – gan wireddu dyheadau.**

Mae angen agwedd gydlynus at gyflwyno gwasanaethau effeithiol, yn edrych ar sut mae'r gwahanol elfennau yn ffitio i'r jig-so. Mae angen canolbwyntio ar yr agenda arfer a deilliannau, a bydd hynny'n golygu paratoi'r gweithlu. Mae angen hefyd i ni sicrhau ein bod yn gallu galw darparwyr gwasanaethau i gyfri pan na chyrrhaeddir y safonau a ddylai fod yn uchelgais i ni i gyd.

Ar ddechrau tymor newydd i'r Cynulliad a'r Llywodraeth, mae'n bryd asesu pa bolisiau a mentrau sydd gennym, a harneisio ein hegni a'n hadnoddau ar draws adrannau'r llywodraeth a meysydd gwasanaeth ar bob lefel.

Ar ôl rhestru'r ddeddfwriaeth a geir yn rhaglen newydd y Llywodraeth, mae angen sicrhau bod deddfwriaeth o'r tymor blaenorol yn cael ei gweithredu'n effeithiol, er enghraifft o ran estyn cwmpas Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Mae penderfyniadau pwysig i'w gwneud yn y tymor nesaf, a rhaid i ni beidio â cholli golwg ar hawliau plant a phobl ifanc yn y trafodaethau hynny. Maent yn ddinasyddion llawn o'n cenedl, ac felly mae rhaid iddynt gyfrannu at drafodaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau a chael eu cynrychioli ynddynt.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o newid sut maent wedi eu cyflunio yn sgîl yr agenda resymoli a mentrau megis Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru – Framwaith Strategol ar gyfer Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. Mae plant a phobl ifanc yn gallu cyfrannu llawn cymaint at ddatblygu a hysbysu datblygiad gwasanaethau â neb arall.

## Gwaith pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

O safbwynt y corff deddfu, bu'r arwyddion yn gadarnhaol. Mae cynnal y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ddatganiad sylweddol o fwriad, yn enwedig yng ngoleuni rhesymoli pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n arwydd o'r ffaith bod cartref democrataidd cenedlaethol Cymru yn credu bod materion plant a phobl ifanc o bwysigrwydd cenedlaethol ac yn teilyngu strwythur ffurfiol er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a phawb sydd â dyletswydd dros hawliau plant yn gallu cael eu galw i gyfri yn effeithiol.

Yn adroddiad blynyddol y llynedd bŵm yn ystyried y camau cadarnhaol a gymerwyd gan y corff deddfu yng nghyswllt gwaith allgymorth a chyfranogiad plant a phobl ifanc. Bu arwyddion cadarnhaol eto eleni, gan gynnwys yr ymchwiliad i weithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau, lle gwelsom bobl ifanc yn rhoi tystiolaeth yn y sesiynau, yn ogystal ag ymdrechion mwy cyffredinol i gynnwys pobl ifanc. Mae'n bwysig bod yr arferion hyn yn cael eu gwerthuso, eu datblygu ymhellach, ac yn a eu hefelychu ar draws y corff deddfu.

Rhaid i ni beidio ag anghofio rôl pob pwyllgor yn craffu ar y Llywodraeth o ran materion plant, megis y ddarpariaeth i gadeiriau olwyn, fel y gwelwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond hefyd yn sgîl rôl ddeuol pwyllgorau yn y broses ddeddfwriaethol. Bydd angen i bob aelod sicrhau eu bod yn deall anghenion penodol plant a phobl ifanc wrth graffu ar ddeddfwriaeth. Edrychaf ymlaen at feithrin cysylltiad parhaus â phwyllgorau'r Cynulliad, a byddaf yn ceisio eu cefnogi gymaint â phosib yn eu rôl, fel bod y consensws trawsbleidiol ar hawliau plant yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau pynciol pwyllgorau ac mewn datblygiadau deddfwriaethol.

## Datblygiadau eraill arwyddocaol

### Yr agenda resymoli

Mae cyfluniad gwasanaethau lleol yn newid yn gyflym, ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn diwygio eu hagwedd o ran sut dylai darparwyr gwasanaeth lleol weithredu er lles pennaf pobl Cymru. Rwyf i'n croesawu'r agenda resymoli a'r cyfleoedd mae'n eu cynnig i ddiwygio a gwella sut rydym yn gwneud pethau yng Nghymru, trwy symleiddio'r agwedd at gynlluniau integredig a phartneriaethau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol, yn sgîl rhoi mwy o annibyniaeth o ran y dull o gyflawni rhwymedigaethau statudol, bod llinellau clir yn cael eu tynnu gan y Llywodraeth o ran disgwyliadau, fel bod modd craffu arnynt yn lleol ac yn genedlaethol, a'u bod wedi eu seilio ar well deilliannau i blant a phobl ifanc a'r boblogaeth yn gyffredinol.

Y mater allweddol i minnau yw sut mae cadw'r ffocws ar blant a phobl ifanc a sut bydd y Gwasanaethau Diogelu Lleol (BGLI), yn arbennig, yn elfennau unigol ac yn gorfforaethol, yn cyflawni eu cyfrifoldeb o ran cynnal hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

>>>

Welsh Government responded positively to many of the points and the final version tabled was a significant improvement. The plenary debate around the tabled version once again exhibited the cross party support for having a UNCRC-focused approach for Welsh policies. In accepting amendments in relation to developing further the reporting and challenge mechanisms, the Deputy Minister for Children and Social Services showed that government was willing to engage with others to ensure that the Measure can deliver real benefits.

Implementing the legislation is new territory but it is important we get it right and we in Wales have taken on a responsibility to show the world that a rights-based approach can lead to better services for children and young people and that society benefits from such an approach.

The Deputy Minister agreed to revisit and evaluate at an early stage and gave a commitment to do so within the first reporting round in January 2013. I look forward to this because an important element will be a discussion on how to formalise the role of the Children's Commissioner for Wales within the implementation of the Measure, as well as other challenge and reporting mechanisms.

Last year I said that the Measure will only be as good as the political will and commitment attached to it. The signs are encouraging and we must maintain the momentum.

As this Measure is implemented, I expect to see the legislature play its part in scrutinising Government. Assembly Members, in their capacity as National Assembly for Wales' committee members, hold Ministers to account in how they can evidence the rights of children and young people have been considered within Ministerial portfolios. Practical improvements in children and young people's lives leading to beneficial outcomes are essential for this legislation to have real meaning.

**The Welsh Government has been clear in its programme: there will be a focus on delivery. Having commented in recent years on the "policy rich but implementation poor" dynamic, I welcome this commitment so that the implementation gap can be narrowed and that children and young people can experience positive impact on the ground – turning aspiration into reality.**

We need a coordinated approach to delivering effective services, looking at how the different pieces of the jig-saw fit. There is a need to focus on the practice and outcomes agenda and this will mean equipping the workforce. We also need to ensure that we can hold service providers to account when the standards to which we should all aspire are not achieved.

At the start of a new Assembly and government term, it's time to assess what policies and initiatives we have and harness our energies and resources across government departments and service areas at all levels.

Having listed the legislation included in the new programme of Government, there is a need to ensure effective implementation of legislation from the previous term, for instance in the roll out of the Mental Health (Wales) Measure 2010, the Carers Strategies (Wales) Measure 2010 and the Children and Families (Wales) Measure 2010.

There are major decisions to be made in the next term and we must not lose sight of the rights of children and young people in those discussions. As full citizens of our nation, they must contribute to and be represented in discussions which will affect their lives. Public services are likely to change the way in which they work via the rationalisation agenda and initiatives such as 'Working Together for Wales – A Strategic Framework for the Public Service Workforce in Wales'. Children and young people are as much of an asset in developing and informing development of services as anyone else.

## National Assembly for Wales Committee work

From the legislature side, the signs have been positive. Maintaining the Children and Young People Committee is a significant statement of intent, especially in light of the rationalisation of National Assembly Committees. It signifies that Wales' national democratic home believes that children and young people's issues are of national importance and merits a formalised structure to ensure that Welsh Government and all duty bearers for children's rights can be effectively held to account.

I reflected in last year's annual report the positive steps taken by the legislature in relation to outreach work and the participation of children and young people. There have been positive steps again this year, including the inquiry into the implementation of the Learning and Skills Measure where we saw young people giving evidence in session as well as wider efforts being made to involve young people at large. It is important these practices are evaluated, developed further and then replicated across the legislature.

We must not forget the role of all committees in scrutinising government on children's issues, such as wheelchair provision taken forward by the Health and Social Care Committee. All members will need to ensure they have an understanding of the particular needs of children and young people in scrutinising legislation. I look forward to continued engagement with Assembly Committees and I will seek to support them in their role as much as possible so that the cross party consensus on children's rights is reflected in committee subject reports and legislative developments.

## Other significant developments

### Rationalisation agenda

The make-up of local service configuration is changing at a pace and the Welsh Government has been reforming its approach to how they believe local service providers should operate in the best interests of the people of Wales. I welcome the rationalisation agenda and the potential which it offers to reform and improve the ways in which we do things in Wales through a more streamlined approach to integrated plans and partnerships. It is essential however, that with the greater autonomy afforded in how statutory obligations are discharged, there are clear parameters of expectation set out by government which can be scrutinised locally and nationally which are based on improved outcomes for children and young people and the population as a whole.

The key issue is how to maintain the focus on children and young people and how the Local Service Boards (LSBs) especially, both the constituent parts as well as corporately, will take up their responsibility in relation to upholding the rights of children and young people in Wales.

>>>

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr arweiniad strategol cyffredinol ar weithio integredig yn creu gwasanaethau effeithiol i blant a phobl ifanc. Ni ellir darparu tystiolaeth ynghylch hynny ond trwy ddangosyddion perfformiad a chraffu cadarn, ac ymarfer ar lawr gwlad.

Mae'n hanfodol bwysig bod gan y gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau ddealltwriaeth o'r agenda a gallu i greu cysylltiad rhwng hynny a'u gwaith – er enghraifft, rhaid i'r gweithiwr iechyd cymunedol ddeall sut mae ef neu hi yn rhan o'r swyddogaeth dai, ac yn yr un modd rhaid i'r gweithiwr iechyd meddwl ddeall y berthynas a'r athro.

Mae'r diffyg cyfarwyddyd pendant ynghylch dyfodol Cynlluniau a Phartneriaethau PPI yn achosi elfen o ddryswch a phryder ynghylch datblygu agwedd gydlynus at wasanaethau plant a pha strwythurau cymorth fydd ar gael i'r BGLI hysbysu eu gwaith yng nghyswllt plant a phobl ifanc. Ni ellir caniatáu i'r rhwymedigaethau a gyflawnir ar hyn o bryd trwy'r cynlluniau Plant a Phobl Ifanc ac sy'n derbyn sylw/yn cael eu darparu gan y Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc gael eu colli. Er enghraifft, os yw'r dyletswyddau ffordi plant o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2011 yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd trwy nod craidd yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, sut mae sicrhau bod y rheidrydd i ymddrin a'r mater difrifol hwn yn cael ei gynnal ar lefel wleidyddol, strategol a gweithredol? Mae'r pryder hwn yn berthnasol i sawl maes polisi, yn cynnwys eiriolaeth, cyfranogiad, a hyd yn oed y gwasanaethau cwnsela. Mae pryder hefyd y bydd colli strwythur megis y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn arwain at rai rhanddeiliaid yn colli eu llais wrth drafod gwasanaethau lleol, er enghraifft sefydliadau trydydd sector llai o faint.

#### Bil Hawliau'r Deyrnas Unedig

Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd y Comisiwn ar Fil Hawliau bapur trafod. Cyflwynais innau ymateb yn amlinellu nifer o bryderon y byddai rhaid i unrhyw Fil Hawliau a gâi ei ddatblygu ymddrin â hwy.

Byddai Bil Hawliau i'r DU yn cael ei groesawu, ond dim ond ar y rhagdybiaeth y byddai bil yn adeiladu ar yr hawliau presennol, yn hytrach na chynrychioli cam yn ôl.

Dylai unrhyw Fil gwmpasu'r hawliau a grisialir mewn confensiynau rhyngwladol eraill, a dylai gyfeirio'n benodol ar CCUHP a'i brotocolau dewisol, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU yn 1991.

Mae datblygu Bil Hawliau i'r DU oddi mewn i wladwriaeth sy'n esblygu'n gyfansoddiadol yn her i'r Comisiwn, a byddai angen gofalu bod deinameg datganoli yn y DU yn cael ei pharchu.

Yn fy ymateb i'r papur trafod, pwysleisiais y dylai unrhyw Fil Hawliau i'r DU gynnwys holl ystod yr hawliau a nodwyd yn CCUHP, yn ogystal ag ystyried plant wrth ddatblygu darpariaethau a hawliau i bawb.

#### Diwygio'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)

Fe wnes i ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch diwygio'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan nodi bod angen y canlynol:

- **pwylgor cryf, unigryw i Gymru, yn adlewyrchu cyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol unigryw Cymru. Mae angen hefyd i'r strwythurau fod yn gadarn ac yn effeithiol i gyflawni eu rôl reoleiddiol yng nghyswllt dyletswyddau cydraddoldeb penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru;**
- **gwasanaeth gwybodaeth a chyngor sy'n cael ei ddarparu gyda dealltwriaeth glir o gyd-destun polisi a ieithyddol Cymru; ac**
- **eglurder ynghylch annibyniaeth EHRC ar y Llywodraeth.**

Byddaf yn cysylltu a'r EHRC yng Nghymru ac yn asesu effaith cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

#### Adolygiad Cyfiawnder Teulu

Penodwyd panel yr Adolygiad Cyfiawnder Teulu i adolygu'r system cyfiawnder teulu lawn yng Nghymru a Lloegr, gan edrych ar bob agwedd ar y system, o benderfyniadau'r llysoedd ynghylch cymryd plant i ofal, i anghydfod ynghylch cyswllt â phlant pan fydd rhieni'n ysgaru. Fe'i comisiynwyd gan yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Gyfiawnder ac Addysg a Llywodraeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Fe'm penodwyd innau i gynrychioli buddiannau plant a darparu persbectif Cymreig ar waith y panel.

**Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Tachwedd 2011, gyda nifer o argymhellion allweddol, yn cynnwys y canlynol:**

- **dylid sefydlu Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu, dan nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda chysylltiadau cryf ar lefel swyddogion a Gweinidogion a'r Adran Addysg yn Lloegr a Llywodraeth Cymru. Y Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu fyddai'n gyfrifol am wasanaethau gwaith cymdeithasol y llysoedd, darparu gwasanaethau cyfryngu a datrystiadau y tu allan i'r llys. Byddai ganddo rôl hefyd o ran pennu safonau ansawdd a monitro'r gwariant yng nghyswllt tystion arbenigol.**
- **er mwyn sicrhau bod buddiannau plant yn ganolog, argymhellodd yr adroddiad y dylid gosod dyletswydd ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Teulu i ddiogelu a hybu lles plant wrth gyflawni ei swyddogaethau.**
- **dylai barnwyr fedru arbenigo mewn materion cyfiawnder teulu a derbyn cyfrifoldebau rheoli.**
- **dylai un llys teulu, gydag un pwyt mynediad, ddisodli'r tair haenen bresennol o lysoedd.**
- **dylid addysgu gweithwyr cymdeithasol am brosesau a gweithdrefnau cyfreithiol perthnasol.**
- **er mwyn mynd i'r afael a'r oedi yn y prosesau, sydd mor niweidiol i blant, dylai'r Llywodraeth ddeddfu fel bod pŵer i bennu terfyn amser ar gyfer achosion gofal.**
- **roedd argymhellion hefyd ynghylch cyfraith breifat a chyhoeddus, a oedd yn cynnwys sut mae ymddrin ag achosion o dorri gorchmynion, dylai'r farnwriaeth roi sylw manwl i sut gellid amddiffyn plant a thystion agored i niwed pan fyddant yn rhoi tystiolaeth mewn achosion teulu, a dylid rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gael clywed eu lleisiau mewn achosion sy'n ymwneud â hwy, lle maent yn dymuno hynny.**

Welsh Government must ensure that the strategic leadership on integrated working across the board is translated to effective service provision for children and young people. This will only be evidenced by robust performance indicators and scrutiny and by the effective delivery of services at an operational level that lead to improved outcomes for service users.

It is paramount that the professionals delivering services have an understanding of the agenda and are able to relate it to their work – for instance the community health worker must understand how he or she fits into the housing function or the mental health worker with the teacher.

The lack of prescription regarding the future of Children and Young People Plans and partnerships does cause an element of confusion and concern with regards to developing a coherent approach to children's services and what support structures there will be for the LSB to inform its work in relation to children and young people. What cannot be allowed to happen is for the obligations discharged via the Children and Young People Plans currently which are then addressed or delivered by the Children and Young People Partnership, to be lost. If, for example, the child poverty duties under the Children and Families (Wales) Measure 2011 are currently discharged via a core aim under the Children and Young People Plan, how do we ensure that the imperative to address this serious issue is maintained at a political, strategic and operational level? This concern is relevant to numerous areas of policy including advocacy, participation and even counselling services. There is also a concern that losing a structure such as the Children and Young People Partnerships will result in particular stakeholders losing a voice in discussing local services, particularly local third sector organisations.

#### UK Bill of Rights

In August 2011, the Commission on a Bill of Rights published a discussion paper. I submitted a response which outlined a number of issues that any Bill of Rights would have to address. A UK Bill of Rights would be welcomed, only on the premise that a bill would build on existing rights and not represent a retreat.

I take the view that any Bill should encompass the rights enshrined in other international conventions and should specifically mention the UNCRC and its optional protocols, ratified by the UK Government in 1991.

Developing a UK Bill of Rights within a constitutionally evolving state provides a challenge to the Commission and care would be needed to respect the dynamics of devolution in the UK.

Within my response to the discussion paper, I emphasised that any UK Bill of Rights should contain the full range of rights identified in the UNCRC as well as having regard to children and young people in developing provisions and rights for all people.

#### Reform of the Equality and Human Rights Commission (EHRC)

I responded to the consultation on reform of the EHRC and stated the need for:

- **a strong and distinctive Wales committee, reflecting the distinct social, political, economic and cultural context in Wales. The structures also need to be robust and effective to undertake their regulatory role in relation to Welsh specific public sector equality duties;**
- **an information and advice service which is delivered within a clear understanding of both the policy and linguistic context in Wales; and**
- **clarity regarding the independence of the EHRC from Government.**

I will liaise with the EHRC in Wales and assess the impact of UK Government proposals for children and young people in Wales.

#### Family Justice Review

The Family Justice Review panel was appointed to review the whole of the family justice system in England and Wales, looking at all aspects of the system, from court decisions on taking children into care, to disputes over contact with children when parents divorce. It was commissioned by the Secretaries of State for Justice and Education and the Welsh Government Minister for Health and Social Services.

I was appointed to represent children's interests and provide a Welsh perspective on the panel's work.

The final report was published in November 2011 with a number of key recommendations, which included:

- **a Family Justice Service should be established, sponsored by the Ministry of Justice, with strong ties at both Ministerial and official level with the Department for Education in England and Welsh Government. The Family Justice Service would be responsible for court social work services, provision of mediation and out of court resolution services. It would also have a role in setting quality standards and monitoring spend in relation to expert witnesses.**
- **to ensure the interests of children are central, the report recommended a duty should be placed on the Family Justice Service to safeguard and promote the welfare of children in performing its functions.**
- **judges should be able to specialise in family justice issues and be given management responsibilities.**
- **a single family court, with a single point of entry, should replace the current three tiers of court.**
- **social workers should be taught about relevant legal process and procedure.**
- **in order to address the delays in the processes which are so damaging to children, Government should legislate to provide a power to set a time limit on care proceedings.**
- **there were also recommendations relating to private and public law which included how to address breaches of orders, the judiciary should actively consider how children and vulnerable witnesses may be protected when giving evidence in family proceedings and children and young people should be given the opportunity to have their voices heard in cases that are about them, where they wish it.**



Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r prif argymhellion, ac edrychaf ymlaen at waith Bwrdd newydd Cyfiawnder Teulu Cymru a Lloegr, sydd yn gyfrifol am arwain y gwaith diwygio, a fydd yn cynnwys newidiadau deddfwriaethol.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru hefyd i sefydlu Rhwydwaith Cyfiawnder Teulu newydd yng Nghymru, y byddaf innau'n aelod ohono, gyda'r nod o ddod â phrif aelodau'r system cyfiawnder teulu ledled Cymru at ei gilydd, gan ddarparu cymuned leol o ddealltwriaeth a diben cyffredin er mwyn gwella gwasanaethau a deilliannau i blant a theuluoedd yng Nghymru.

### Y ddadl ynghylch smacio

Ym mis Hydref, cynhaliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ddadl lawn a phleidlais ar gynnig ynghylch yr angen am ddileu amddiffyniad 'cosb resymol'. Roeddwn yn falch dros ben bod y mater pwysig hwn wedi cael ei roi'n ôl yn bendant ar yr agenda wleidyddol, ac roeddwn yn fwy balch fyth bod CCC wedi pleidleisio o blaid y cynnig. Mae ailymddangosiad y mater hwn unwaith eto yn amlygu'r ymrwymiad o fewn y corff deddfu i gynnal hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru, mor bell yn ôl â 2002, ac yn gyson ers hynny, wedi gwneud eu gwrthwynebiad i gosbi plant yn gorfforol yn eglur iawn. Adlewyrchwyd hynny eto yng nghynllun gweithredu cyfredol Llywodraeth Cymru ar CCUHP. Gwneud Pethau'n lawn, sy'n nodi bod "gweithio i sicrhau bod cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol yn anghyfreithlon ym mhob sefyllfa" yn flaenoriaeth. Mae hyn bellach o fewn pŵer Llywodraeth Cymru, ac felly mae dyletswydd arni i gyflawni'r mater pwysig hwn ac ymdrin â rhywbeth sydd, yn ei hanfod, yn fater o gydraddoldeb.

Cafwyd cryn sylw yn y cyfryngau a dadleuon cyhoeddus ar y mater hwn, ac roeddwn wrth fy modd yn gallu cyfrannu at y drafodaeth honno. Mae'n hanfodol nad ydym yn colli momentwm a'n bod yn parhau i lynu at ein hargyhoeddiadau, fel bod Cymru'n gallu arwain unwaith yn rhagor yn y gwaith o gynnal hawliau plant a phobl ifanc.

### Adolygiad Comisiynydd Plant Lloegr

Ar hyn o bryd mae gan Gomisiynydd Lloegr gylch gorchwyl ar draws y DU ar faterion sydd heb eu datganoli, sy'n golygu ei fod yn gallu ymarfer ei swyddogaethau yng nghyswllt plant yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Gallai'r sefyllfa hon greu dryswch, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc a allai droi at Gomisiynydd gwahanol yn ôl a yw'r mater dan sylw wedi ei ddatganoli neu beidio.

Mae angen ymdrin â'r anghysondeb hwn. Mae'n fwy priodol, yn enwedig o safbwynt y plentyn, bod pob un o Gomisiynwyr y DU yn gallu hyrwyddo ac amddiffyn holl hawliau'r plant yn eu gwlad eu hunain, beth bynnag yw'r mater dan sylw.

Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y DU adolygiad o Gomisiynydd Plant Lloegr. Gofynnwyd i Dr Dunford, arbenigwr addysg annibynnol, ystyried pŵerau'r Comisiynydd, ei gylch gorchwyl a'i swyddogaethau. Roedd argymhellion yr adolygiad yn eang ac yn cynnwys yr angen am gylch gorchwyl cryfach wedi'i seilio ar hawliau plant, mwy o annibyniaeth ar y Llywodraeth a hefyd, yn bwysig i Gomisiynwyr Plant eraill y DU, gydabyddiaeth y dylai comisiynwyr plant, mewn egwyddor, fod yn gyfrifol am fuddiannau'r plant a'r bobl ifanc sydd fel arfer yn byw yn eu gwledydd. Petai modd, dylid crisialu'r egwyddor hon yn y gyfraith.

Ymatebodd Llywodraeth y DU yn gadarnhaol i argymhellion Dr Dunford, a nododd datganiad Gweinidogol gan Sarah Teather AS (y Gweinidog dros Blant a Theuluoedd):

'Dr Dunford's recommendations mean that the statutory basis and form of the Office of the Children's Commissioner must change. I will consult in due course on legislative changes. In the interim, the current role and functions of the Children's Commissioner will continue. This includes the Commissioner's remit over non-devolved matters impacting on children and young people in Northern Ireland, Scotland and Wales. I do understand the difficulties that the current position presents for the Children's Commissioners in the devolved administrations. I will want to work with them to achieve a situation, within the devolution settlements, where the interests of children in Scotland, Wales or Northern Ireland can be fully represented by the Commissioner for that jurisdiction.'

Rwy'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r trafodaethau hyn, ynghyd â Chomisiynwyr Plant eraill y DU, er mwyn sicrhau fy mod yn gallu gweithio'n effeithiol dros holl blant a phobl ifanc Cymru, p'un a yw'r mater dan sylw wedi ei ddatganoli neu ei neilltuo.

Both the UK Government and the Welsh Government have responded positively to the key recommendations and I look forward to the work of the new Family Justice Board for England and Wales, tasked with leading on the reform work, which will include legislative changes.

Welsh Government also committed to establish a new Family Justice Network in Wales, on which I will sit, aimed at bringing together the key players within the family justice system at an all-Wales level providing a local community of understanding and common purpose to improve services and outcomes for children and families in Wales.

### The debate on smacking

In October, the National Assembly for Wales (NAfW) had a plenary debate and a vote on a motion regarding the need to remove the defence of 'reasonable chastisement'. I was extremely pleased that this important issue has been put firmly back on the political agenda and even more so that the NAfW voted in favour of the motion. The re-emergence of this issue once again highlights the commitment within the legislature to uphold the rights of children and young people in Wales.

In the same manner, Welsh Government, as far back as 2002 and consistently since, has made their opposition to the physical punishment of children very clear. This was again reflected in the Welsh Government's current UNCRC actions plan Getting it Right, which states a priority of "working to make physical punishment of children and young people illegal in all situations." It is now within Welsh Government's power and therefore incumbent on them to deliver on this important issue and address what is essentially a matter of equality.

There was significant media coverage and public debate on this issue and I was delighted to have been able to contribute to that discussion. It is essential that momentum is not lost and that we continue with the courage of our convictions so that Wales can, once again, lead the way in upholding the rights on children and young people.

### Review of the Children's Commissioner for England

Currently, the English Commissioner has a UK-wide remit regarding non-devolved issues, enabling them to exercise their functions in relation to children in Wales, Northern Ireland and Scotland. This situation can and does lead to confusion, particularly among children and young people who would have recourse to a different Commissioner depending on whether the issue they are concerned about is devolved or non-devolved. There is a need to address this anomaly. It is more appropriate, particularly from the point of view of the child, that each of the Commissioners in the UK is able to promote and protect all the rights of children in their own country, regardless of the subject matter.

In July 2010, the UK Government announced a review of the Children's Commissioner for England. Dr Dunford, an independent education consultant, was asked to consider the England Commissioner's powers, remit and functions. The review's recommendations were wide ranging and included the need for a strengthened remit based around children's rights, greater independence from Government and, importantly for the Children's Commissioners across the UK, recognition that in principle, children's commissioners should be responsible for the interests of children and young people who normally reside in their countries. It recommended this principle should be enshrined in law, if possible.

The UK Government responded positively to Dr Dunford's recommendations and a written Ministerial statement by Sarah Teather MP, Minister of State for Children and Families, noted:


'Dr Dunford's recommendations mean that the statutory basis and form of the Office of the Children's Commissioner must change. I will consult in due course on legislative changes. In the interim, the current role and functions of the Children's Commissioner will continue. This includes the Commissioner's remit over non-devolved matters impacting on children and young people in Northern Ireland, Scotland and Wales. I do understand the difficulties that the current position presents for the Children's Commissioners in the devolved administrations. I will want to work with them to achieve a situation, within the devolution settlements, where the interests of children in Scotland, Wales or Northern Ireland can be fully represented by the Commissioner for that jurisdiction.'

I look forward to engaging on these discussions, along with my fellow UK Children's Commissioners to ensure that I can work effectively for all children and young people in Wales, on all matters whether they are devolved or reserved.



# Materion polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc

Policy issues  
affecting children  
and young people





**Yn yr adran hon rwyf wedi defnyddio saith nod craidd Llywodraeth Cymru yn sail ar gyfer dadansoddi polisiau a datblygiadau allweddol. Mae pob adran yn adolygu gweithgaredd y flwyddyn ac yn cloi trwy nodi'r meysydd y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio arnynt, yn fy marn i.**

## **Nod 1: Dechrau'n deg mewn bywyd**

### **Rhianta**

**Fy marn i...**  
Dylai pob rhiant a gofalwr fedru cyrchu cyngor a chymorth pan fydd eu hangen arnynt, beth bynnag yw eu hamgylchiadau, ble bynnag maent yn byw, beth bynnag yw oedran eu plentyn – fel eu bod yn gallu rhianta eu plant yn gadarnhaol.

#### **Edrych yn ôl**

Yn adroddiad y llynedd roedd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru weithredu argymhellion ymchwiliad rhianta Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys 10 argymhellion, a derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un ohonynt. Roeddent yn cynnwys argymhellion y dylid cydnabod cymorth rhianta oedd ar gael i bawb, wedi ei ddarparu gan staff oedd wedi eu hyfforddi'n briodol, fel gwasanaeth hanfodol i deuluoedd.

Cyflwynodd y Cynllun Gweithredu Rhianta ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt cefnogi rôl hanfodol rhieni a gofalwyr ym mywydau plant a phobl ifanc. Roedd y Cynllun Gweithredu Rhianta yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2008, ond ar hyn o bryd nid oes fframwaith strategol clir ar gyfer hyrwyddo cymorth rhianta cyffredinol yng Nghymru, ac mae hynny'n destun pryder mawr i mi. Os byddwn yn cefnogi rhieni a gofalwyr byddwn yn cynnal gwell deilliannau i blant a phobl ifanc. Roedd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cynnwys y ddarpariaeth hon:

#### **Gwasanaethau cynnal rhieni: pwerau'r awdurdod lleol**

- (1) Gall awdurdod lleol ddarparu, sicrhau darpariaeth neu gyfranogi yn narpariaeth gwasanaethau cynnal rhieni i rieni plant**
- (2) Ni chaiff awdurdod lleol godi tâl am unrhyw beth a ddarperir o dan is-adran (1)**

Fodd bynnag, heb fframwaith strategol clir a chyfredol, mae'n anodd gweld sut bydd darpariaethau'r Mesur yn cael eu gweithredu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu nifer o raglenni cynnal teuluoedd megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau Cymorth Integredig i Deuluoedd, sydd i gyd yn cynnwys elfen o gymorth rhianta. Fodd bynnag, mae'r rhain i gyd yn rhaglenni targedig – nid ydynt yn darparu ar gyfer rhieni sydd ddim yn byw yn yr ardaloedd targedig nac yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer mynediad i wasanaethau wedi eu targedu. Rwy'n pryderu y gallai'r newidiadau i lifoedd arian a rhesymoli cynlluniau a phartneriaethau lleol gyfyngu ar y flaenoriaeth a roddir i gymorth sydd ar gael yn gyffredinol i rieni a gofalwyr.

#### **Edrych ymlaen**

— Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i gynnal gweithrediad cymorth rhianta fel y nodwyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac i ddefnyddio hynny i ddarparu cyfeiriad strategol clir ar gymorth rhianta cyffredinol, gan roi sylw i argymhellion Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

— Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys yn y canllawiau hynny gyfarwyddyd ynghylch yr angen am ddarpariaeth cymorth rhianta cyffredinol, i gynnwys cymorth priodol, hygyrch ar gyfer gofalwyr sy'n perthyn, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol a rhieni sydd â phlant anabl.

**Within this section I have used the Welsh Government's seven core aims as the basis for analysing key policies and developments. Each section reviews the year's activity and concludes with what I believe should be Welsh Government's areas of focus.**

## **Aim 1: Flying start in life**

### **Parenting**

**What I think...**  
All parents and carers should be able to access advice and support when they need it, no matter what their circumstances, no matter where they live, no matter what age their child is – so that they can parent their children positively.

#### **Looking back**

In last year's report I looked to Welsh Government to implement the recommendations of the National Assembly for Wales' Children and Young People Committee parenting inquiry recommendations. The Committee's report included 10 recommendations, all of which the Welsh Government accepted. These included a recommendation that universally available parenting support, delivered by appropriately trained staff be recognised as a vital service to families.

The Parenting Action Plan presented a clear commitment from Welsh Government in relation to supporting the crucial role of parents and carers in the lives of children and young people. The Parenting Action Plan covered the period up to 2008 but there is currently no clear strategic framework for promoting universal parenting support in Wales and this is of great concern to me. If we support parents and carers we support better outcomes for children and young people. The Children and Families (Wales) Measure 2010 included this provision:

#### **Parental support services: powers of local authority**

- (1) A local authority may provide, secure the provision of or participate in the provision of parental support services to parents of children.**
- (2) A local authority may not charge for anything provided under subsection (1)**

However without a clear and current strategic framework it is difficult to see how the provisions of the Measure will be implemented.

Welsh Government has put in place a number of family support programmes such as Flying Start, Families First and Integrated Family Support Services all of which include an element of parenting support. However these are all targeted programmes – they do not provide for parents who do not live in target areas or meet thresholds for access to targeted services. I am concerned that changed funding streams and the rationalisation of local plans and partnerships could limit the priority given to universally available support to parents and carers.

#### **Looking forward**

— I am calling on Welsh Government to publish guidance to support the implementation of parenting support as set out in the Children and Families (Wales) Measure 2010 and to use this to provide clear strategic direction on universal parenting support, taking into account the recommendations of the National Assembly for Wales' Children and Young People Committee.

— I am calling on Welsh Government to include in such guidance direction on the need for universal parenting support provision to include appropriate and accessible support for kinship carers, foster carers, adoptive parents and parents who have disabled children.

## Nod 2: Mynediad i gyfleoedd addysg, hyfforddi a dysgu

### Addysg

Fy mam i... Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i dderbyn addysg. Mae ganddynt hawl i leisio barn ar yr addysg a gânt, y manau lle maent yn ei derbyn, sut maent yn cael eu trin mewn lleoliadau addysg, ac i gael y farn honno wedi ei hystyried o ddfiri.

### Safonau a threfniadaeth ysgolion

#### Edrych yn ôl

**Cynnydd o ran Asesiadau Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA) ac Ymddygiad** Yn fy adroddiad blynyddol diwethaf fe wnes i groesawu cynllun gweithredu 20 pwynt y Gweinidog Addysg mewn ymateb i'r Cynnydd ar Asesiadau Myfyrwyr Rhyngwladol (2009), a'i ffocws o'r newydd ar y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ymddygiad a Phresenoldeb. Cyflwynodd y Gweinidog ddiweddarariad ar y cynnydd o ran y cynllun gweithredu 20 pwynt ym mis Chwefror 2012, ac wrth ymateb iddo fe wnes innau groesawu darparu cyllid i hyfforddi athrawon mewn technegau rheoli ymddygiad fel datblygiad hanfodol i gynorthwyo athrawon i reoli yn y dosbarth.

#### Bandio ysgolion

Cyhoeddwyd data terfynol ar fandio ysgolion uwchradd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2011. Er fy mod yn falch bod y mesurau a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer gwelliant, gan gynnwys lleihau effaith amddifadedd, rwy'n dal i bryderu mai 'prin yw'r ysgolion' sy'n rhoi cefnogaeth dda i ddysgwyr sydd o dan anfantais, fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn. Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar sut mae ysgolion yn methu rhannu arfer gorau na chydweithio'n dda ynghylch hyn. Yn y cyfamser, dangosodd yr Ystadegau Cenedlaethol diweddaraf ar Gyflawniad Academaidd a Hawl i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ryddhawyd ym mis Mawrth 2012 fod perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is nag eiddo eu cymheiriaid sydd ddim yn gymwys 'ym mhob cyfnod allweddol ac ym mhob mesur perfformiad'.

Rwy'n deall bod Uned Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chonsortia addysg i ddatblygu cynlluniau gwella gyda phob ysgol band 4 a 5.

#### Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)

Rwyf wedi nodi'n eglur yn fy ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) fy mod yn dymuno gweld rhoi sylw i hawliau'r plentyn o dan CCUHP yn cael ei ychwanegu at y meini prawf ar gyfer rhoi hysbysiad rhybudd i gorff llywodraethu ysgol.

Y llynedd fe alwais ar y rhai oedd yn ymwneud â datblygu a gweithredu cynigion trefniadaeth ysgolion i ystyried hawliau disgyblion fel y'u nodwyd yn CCUHP, yn enwedig yng nghyswllt darparu gwybodaeth a chyfle i gael clywed eu lleisiau ar faterion sy'n effeithio arnynt. Rwy'n gobeithio drwy'r ddeddfwriaeth y bydd y gofynion statudol i ymgynghori â dysgwyr yn cael ei weithredu'n effeithiol ac y gwelwn arfer da yn cael ei ymestyn drwy Gymru.

Rwyf hefyd yn pryderu y gallai newidiadau i'r trefniadau a'r cyllido ar gyfer brecwast am ddim yn yr ysgol, cwnsela yn yr ysgol a thaliadau hyblyg am brydau ysgol o dan y Bil effeithio ar fynediad teg a darparu gwasanaethau nad ydynt yn peri stigma i blant a phobl ifanc.

#### Edrych ymlaen

— Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau a fydd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cydnabod fel rhanddeiliaid allweddol o ran yr ymgysylltu ar gyfer prosesau sy'n ymwneud â safonau a threfniadaeth ysgolion.

— Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried gofynion y Mesur Hawliau Plant (2011) yng nghyswllt y cynigion a gynhwyswyd yn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion.

— Rwy'n galw ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i asesu'r effaith bosib o ran tlodi, cydraddoldeb a mynediad at hawliau o dan y trefniadau newydd yng nghyswllt addysg Anghenion Addysgol Arbennig ôl-16, brecwast am ddim yn yr ysgol, cwnsela yn yr ysgol a thaliadau hyblyg am brydau ysgol wrth wneud penderfyniadau lleol.

### Cyfranogiad mewn lleoliadau addysg

#### Fy mam i...

**Mae Erthygl 12 o CCUHP yn datgan bod gan bob plentyn hawl i ddweud ei farn ar bob mater sy'n effeithio arnynt, ac i gael yr hawliau hynny wedi eu cymryd o ddfiri.**

#### Edrych yn ôl

Bu cyfranogiad mewn lleoliadau addysg yn destun rheoliadau a chanllawiau ers 2005. Mae Prosiect Cyfranogiad Disgyblion Llywodraeth Cymru yn ei le i gefnogi ysgolion i alluogi plant a phobl ifanc i gael llais ac i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, fel y nodwyd yn Erthygl 12 o CCUHP.

Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn nodi bod angen i gyfranogiad plant a phobl ifanc mewn agweddau ehangach ar ddsygu adeiladu ar waith cyngorau ysgol i sicrhau ymgysylltu gwirioneddol â'r broses ddsygu. Fodd bynnag mae adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn (2010-11) yn awgrymu bod y cynnydd yn hyn o beth yn rhy araf. Mae'n nodi canfyddiad bod disgyblion yn cyfranogi'n dda mewn gweithgareddau cymunedol ym mwyafrif yr ysgolion cynradd, ond bod y disgyblion yn chwarae rhan rhy fach yn y penderfyniadau ynghylch sut a beth maen nhw'n ei ddsygu mewn lleiafrif o ysgolion cynradd. Mewn ysgolion uwchradd mae disgyblion 'yn aml' yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ym penderfyniadau a wneir am amrywiol agweddau ar fywyd yr ysgol, megis gwella'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi nad oes ond 'ychydig ysgolion' lle mae ymwneud y disgyblion â bywyd a gwaith yr ysgol yn arbennig o gryf, a lle mae ganddynt rôl arwyddocaol mewn gweithgareddau hunanwerthuso ac yn y broses o ddatblygu cynlluniau gwella'r ysgol.

Canfu arolwg Llywodraeth Cymru yn 2011 ar ymgysylltiad disgyblion fod ychydig o dan hanner y disgyblion yn yr arolwg yn teimlo bod pawb yn cael cyfle i gael clywed eu barn yn yr ysgol, roedd bron traean yn cytuno bod hynny'n digwydd i ryw raddau, ond dywedodd chwarter eu bod yn anghytuno bod pawb yn cael cyfle i gael clywed eu barn yn yr ysgol. Daw'r ymchwil i'r casgliad, er bod y disgyblion a ymatebodd i'r arolwg yn ymwybodol o'u hawl i gael clywed eu llais, ac er bod mecanweithiau'n bodoli i bobl ifanc leisio barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, bod canfyddiad mai peth arwynebol yw hynny, ac nad oes neb mewn gwirionedd yn gwrandao ar beth maen nhw'n ei ddweud. Roedd y canfyddiad hwn yn ergyd fawr i mi. Mae plant a phobl ifanc yn dal i ddweud nad ydynt yn cael eu clywed.

Rwy'n credu'n bendant bod yr angen am agwedd ysgol gyfan a gwrandao ac ymateb i leisio plant a phobl ifanc yn rhan annatod o ymrwymiad i hawliau plant. Mae'n ganolog i fynd i'r afael â dadriithiad, i ddeall anghenion disgyblion o ran datblygiad emosiynol a chymdeithasol, ac i baratoi pobl ifanc ar gyfer cyfrifoldebau bod yn oedolion. Gellir cyflawni gwelliannau a fydd yn cyfrannu at brofiad plant a phobl ifanc o ddsygu ac at effeithiolrwydd ysgolion.

## Aim 2: Access to education, training and learning opportunities

### Education

#### What I think...

Every child and young person has the right to an education. They have a right to have a say about the education they receive, the places they receive it, the way they are treated in educational settings and to have those views taken seriously.

### School standards and organisation

#### Looking back

**Progress on International Student Assessments (PISA) and Behaviour** In my last annual report I welcomed the Education Minister's 20 point action plan in response to the Progress on International Student Assessments (2009) and the renewed focus on the National Behaviour and Attendance Action Plan. In February 2012, the Minister issued an update on progress against the 20 point action plan. In response I welcomed the provision of funding to train teachers in behavioural management techniques as a crucial development in supporting teachers in classroom management.

#### School banding

Final data on the school banding of secondary schools was published by Welsh Government in December 2011. Whilst I am pleased that the measures used reflect the Minister's priorities for improvement, which include reducing the impact of deprivation, I remain concerned that 'few schools' are supporting disadvantaged learners well, as noted in Estyn's latest annual report. The report also details how schools are failing to share best practice or collaborate well with each other on the issue. Meanwhile, latest National Statistics on Academic Achievement and Entitlement to Free School Meals produced by Welsh Government and released in March 2012 indicated that performance of pupils eligible for free school meals is lower than their non-eligible counterparts 'at all key stages and in all performance measures'.

I understand that Welsh Government's School Standards Unit is working with education consortia to take forward improvement plans with each band 4 and 5 school.

#### School Standards and Organisation (Wales) Bill

I have made it clear in my response to the consultation on the School Standards and Organisation (Wales) Bill that I wish to see regard for the rights of the child under the UNCRC added to the criteria for issuing a warning notice to a governing body of a school.

Last year I called on those involved in developing and implementing school organisation proposals to consider the rights of pupils as provided by the UNCRC, particularly in relation to the provision of information and the opportunity to have their voices heard on matters that affect them. I hope through this legislation that the statutory obligation to consult with learners will be effectively implemented and that we see good practice rolled out across Wales.

I am also concerned that changes to the arrangements and funding for free school breakfasts, school-based counselling and flexible charging for school meals under the Bill may impact on equity of access and the provision of non-stigmatising services for children and young people.

#### Looking forward

— I am calling on Welsh Government to take measures to ensure that children and young people are recognised as key stakeholders in relation to engagement in processes relating to school standards and organisation.

— I am calling on Welsh Government to consider the requirements of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 in relation to the proposals included in the School Standards and Organisation Bill.

— I am calling on local authorities and governing bodies to assess the potential impact in terms of poverty, equality and access to rights under new arrangements in relation to post-16 Special Educational Needs education, free school breakfasts, school-based counseling and flexible charging for school meals when making local decisions.

### Participation in education settings

#### What I think...

**Article 12 of the UNCRC states that every child has the right to say what they think in all matters affecting them and to have those rights taken seriously.**

#### Looking back

Participation in education settings has been the subject of regulation and guidance since 2005. The Welsh Government Pupil Participation Project is in place to support schools in enabling children and young people to have a voice and to participate in decisions that affect them, as set out in Article 12 of the UNCRC.

The School Effectiveness Framework states that 'children and young people's participation in wider aspects of learning needs to build on the work of school councils to secure real engagement in the learning process.' However Estyn's latest annual report (2010-11) suggests that progress is too slow in achieving this. It states that it does find that in the majority of primary schools pupils participate well in community activities but that in a minority of primary schools pupils play too small a role in making decisions about how and what they learn. In secondary schools pupils 'often' take part in community activities and in making decisions about various aspects of school life, such as improving the environment. However the report also identifies that there are only a 'few schools' where 'pupils involvement in the life and work of the school is especially strong and where they have a significant role in self-evaluation activities and in the process of developing school improvement plans'.

Welsh Government's 2011 survey on pupil engagement found that just under half of the pupils surveyed felt that everyone has a chance to have their opinions heard in school, nearly a third agreed that this sort of happens but a quarter said that they disagreed that everyone has a chance to have their opinions heard in school. The research concludes that whilst those pupils who responded to the survey were aware of their right to have their voices heard, and that although mechanisms exist for young people to have their say in decisions that affect them, there is a perception that this only has surface value and in reality no-one is listening to what they are saying. This finding hit me hard. Children and young people are still reporting they are not being heard.

I strongly believe that inherent to a commitment to children's rights is the need for a whole-school approach and to listening and responding to the voices of children and young people. It is central to tackling disengagement, to understanding the emotional and social development needs of pupils and in preparing young people to take on the responsibilities of adulthood. Improvements can be achieved that will contribute to the learning experience of children and young people and to school effectiveness.



## Edrych ymlaen

— **Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ofyn i Estyn gynnwys cyfranogiad yn eu rhaglen flynyddol o faterion i'w hystyried yn fanylach. Dylai'r gwaith hwn gynnwys ystyried i ba raddau mae lleoliadau addysg yn bodloni'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ac adolygiad o weithrediad yr argymhellion a wnaed gan Estyn yn ei adroddiad yn 2008 ar gyfranogiad disgyblion a chynghorau ysgol.**

— **Rwy'n disgwyl i gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfranogiad disgyblion gael ei chynnal fel elfen bwysig o effeithiolrwydd ysgolion. Rwy'n ymwybodol bod 'Llais Disgyblion Cymru' wedi datblygu pecyn offer hunanwerthuso i gynorthwyo ysgolion i gasglu tystiolaeth o gyflawniadau a gwell deilliannau yng nghyswllt llais disgyblion. Rwy'n galw ar ysgolion i ystyried defnyddio'r offeryn hwn yn rhan o'u proses hunanwerthuso flynyddol, ac fel rhan o brosesau arolygu Estyn.**

## Diogelu a chwynion

Fy marn i...

Os na fyddwn yn gwrandao ar blant a phobl ifanc, ni allwn eu diogelu. Gall cam-drin plant a phobl ifanc ddigwydd pan na fyddwn yn rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddweud wrthym ni beth sy'n digwydd iddyn nhw, a phan na fyddwn ni'n cymryd beth sydd ganddyn nhw i'w ddweud wrthyn ni o ddiatri.

### Edrych yn ôl

Cyhoeddwyd adroddiad Ymchwiliad Clywch i achosion o gam-drin disgyblion yn rhywiol mewn lleoliad ysgol gan y Swyddfa hon wyth mlynedd yn ôl. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar Ddiogelu Plant ym myd Addysg ym mis Ebrill 2008. Fodd bynnag, mae adroddiad arolygu diweddar ar y cyd mewn un awdurdod lleol yng Nghymru ar arferion diogelu ym myd addysg wedi tynnu fy sylw at y ffaith nad yw'r gwersi a ddylai fod wedi eu dysgu o ganlyniad i Clywch wedi cael eu rhoi ar waith gan yr holl weithwyr proffesiynol ym myd addysg. Efallai mai'r canfyddiad oedd yn achosi'r pryder mwyaf i mi oedd nad oedd neb i weld yn gwrandao ar y plant a'r bobl ifanc.

Cyhoeddwyd adroddiad arolygiad o unedau cyfeirio disgyblion gan arolygwyr Estyn a'r Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Ionawr 2012. Mae'r adroddiad yn cyflwyno darlun sy'n destun pryder, lle nad oes safon gyson ar draws y ddarpariaeth ar gyfer diogelu, strategaethau rheoli ymddygiad, a defnydd o ataliaeth ac arfer amddiffyn plant. Trawiadol yw'r ffaith nad yw disgyblion yn cael cyfle i ychwanegu eu sylwadau eu hunain at adroddiadau digwyddiadau yn dilyn ymyrraeth, nid yw cwynion gan rieni neu ddisgyblion yn erbyn staff wedi i ataliaeth gael ei defnyddio bob amser yn cael eu cofnodi, eu hadrodd nac yn destun ymchwiliad yn brydlon, ac nid yw'r canlyniadau bob amser yn cael eu cofnodi'n gywir.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau drafft, 'Canllawiau a gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru', ynghylch cwynion yn 2011, a daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ebrill 2011. Rydym yn dal i ddisgwyl i'r canllawiau terfynol gael eu cyflwyno.

Mae fy ngwasanaeth cyngor a chefnogaeth yn ymdrin yn rheolaidd ag achosion lle nad yw prosesau diogelu'n cael eu dilyn mewn lleoliadau addysg, yn aml, fe ymddengys, o ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth o weithdrefnau a phrosesau adrodd ymhlith penaethiaid a chyrrff llywodraethu. Mae ysgolion a chyrrff llywodraethu yn arbennig yn methu cynabod y broses y cytunwyd arni o ran cyfeirio at wasanaeth ymchwilio annibynnol SERVOCA. Mae fy Swyddfa hefyd wedi delio ag achosion lle nad yw cwynion a wneir gan ddisgyblion yn derbyn sylw yn unol â'r weithdrefn, a lle na chlywir llais y plentyn neu'r person ifanc. Rhaid i'r sefyllfa hon newid.

## Edrych ymlaen

— **Eleni byddaf yn dechrau ar ddarn o waith am gwynion mewn lleoliadau addysg. Fe fydd y manylion yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref.**

## Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (SENTW) 2012

### Edrych yn ôl

Yn adroddiad diweddaraf SENTW, ar gyfer y cyfnod 2010-2011, ceir tystiolaeth o dueddiad parhaus ar i fyny yn nifer yr apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Er bod cynnydd yn yr apeliadau oedd yn ymwneud â chynnwys datganiadau AAA, nododd yr adroddiad hefyd fod gostyngiad yn nifer yr apeliadau ynghylch gwrthod darparu datganiad. Rwyf felly yn croesawu datganiad ysgrifenedig y Gweinidog Addysg sy'n nodi pryderon ynghylch y straen a roddir ar deuluoedd lle ceir cyfradd uchel o gonseisynau yng nghyswllt penderfyniadau i beidio ag asesu plentyn a allai fod ag AAA, ac rwy'n falch bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn iddynt atgoffa awdurdodau lleol bod rhaid iddynt lynu at y Côd Ymarfer AAA, er mwyn helpu i osgoi anghydfod.

Yn y cyfamser, daeth rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru i rym ddechrau Mawrth 2012. Mae'r rheoliadau'n deillio o Fesur Addysg (Cymru) 2009 ac yn darparu hawl i blant a phobl ifanc yng Nghymru apelio ynghylch AAA a'r hawl i gyflwyno achos ynghylch camwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion i SENTW eu hunain.

## Edrych ymlaen

— **Byddaf yn casglu tystiolaeth ynghylch effaith y newidiadau hyn.**

## Toiledau ysgol

### Edrych yn ôl

Ym mis Ionawr eleni gwelwyd cyhoeddi'r canllawiau arfer gorau ar gyfer toiledau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Fe'u bwriadwyd ar gyfer awdurdodau lleol, Cyrff Llywodraethu ysgolion a Phenaethiaid, ac maent yn darparu canllawiau anstatudol ar gyfer darparu a rheoli cyfleusterau toiled ar gyfer disgyblion yn eu hysgolion.

Er nad yw'r canllawiau'n mynd mor bell ag argymhelliad yr Athro Hugh Pennington yn 'Adroddiad Pennington' (2009) o ran archwiliadau dan arweiniad awdurdodau lleol, maent yn galluogi ysgolion i roi ysbryd argymhellion Pennington ar waith. Maent yn nodi bod angen i awdurdodau lleol drefnu bod cynlluniau ar waith i sicrhau bod Cyrff Llywodraethu yn derbyn y canllawiau arfer gorau hyn ac yn ei weithredu'n llawn, fel ein bod yn gweld gwelliannau go iawn a chysondeb yn y ddarpariaeth toiledau ysgol ledled Cymru.

Bydd gofyn bod Cyrff Llywodraethu yn cynnwys datganiad yn eu hadroddiad blynyddol ynghylch darparu cyfleusterau toiledau ysgol i'r disgyblion a'r trefniadau ar gyfer glanhau'r toiledau hynny.

## Edrych ymlaen

— **Rwy'n galw ar Gyrrff Llywodraethu i sicrhau bod barn dysgwyr yn cael ei chasglu fel rhan o'r broses fonitro hon.**

— **Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i oruchwylio gweithrediad y canllawiau hyn er mwyn canfod a fydd angen canllawiau statudol cryfach yn y dyfodol.**

— **Byddaf yn casglu tystiolaeth gan y plant a'r bobl ifanc y byddaf yn cwrrdd â nhw ar hyd y flwyddyn i weld a yw'r canllawiau newydd yn cael unrhyw effaith.**

## Looking forward

— **I am calling on Welsh Government to request that Estyn include participation as an issue for inclusion in their annual programme of issues to be considered in more detail. This work should include consideration of the degree to which education settings are meeting the National Participation Standards and a review of the implementation of recommendations made by Estyn in its 2008 report on pupil participation and school councils.**

— **I expect that support for pupil participation by Welsh Government is maintained as an important element of school effectiveness. I am aware that 'Pupil Voice Wales' has developed a self-evaluation toolkit to support schools in gathering evidence of achievements and improved outcomes relating to pupil voice. I am calling on schools to consider the use of this tool as part of their annual self-evaluation process and as part of Estyn inspection processes.**

## Safeguarding and complaints

What I think...

If we do not listen to children and young people we cannot safeguard them. Abuse of children and young people can happen when we do not provide them with opportunities to tell us what is happening to them and when we do not take seriously what they have to tell us.

### Looking back

The Clywch Inquiry report into cases of sexual abuse of pupils in a school setting was published by this Office eight years ago. Welsh Government issued guidance on Safeguarding Children in Education in April 2008. However a recent joint inspection report into safeguarding practices in education in one local authority in Wales has highlighted to me that the lessons that should have been learnt as a result of Clywch have not been put into practice by all education professionals. Perhaps the most worrying of the findings for me was that no one appeared to be listening to the children and young people.

The report of an inspection of pupil referral units by Estyn and Care and Social Services Inspectorate Wales was published in January 2012. The report provides a worrying picture in which there is no consistent standard applied across provision in relation to safeguarding, behaviour management strategies, and use of restraint and child protection practice. Notably pupils are not given the opportunity to add their own comments to incident reports following an intervention, complaints by parents or pupils against staff following use of restraint are not always recorded, reported or investigated in a timely manner, and outcomes are not always recorded accurately.

Welsh Government issued draft guidance, 'Guidance and model procedure for school governing bodies in Wales', in relation to complaints in 2011 and the consultation ended in April 2011. We are still waiting for the final guidance to be issued.

My advice and support service regularly handle cases where safeguarding processes are not followed in education settings, often it seems as a result of poor awareness of reporting procedures and processes among head teachers and governing bodies. In particular schools and governing bodies fail to recognise the agreed process for referral to Welsh Government funded independent investigation service SERVOCA. My Office has also dealt with cases where complaints made by pupils are not dealt with according to procedures and where the voice of the child or young person is not heard. This situation must change.

## Looking forward

— **This year I will be undertaking a piece of work on complaints in education settings, details of which will be published in the autumn.**

## Special Education Needs Tribunal for Wales (SENTW) Regulations 2012

### Looking back

The most recent SENTW report, for the period 2010-2011, evidences a continued upward trend in the number Special Educational Needs (SEN) appeals. Whilst there was an increase in appeals concerned with the content of SEN statements, the report also noted a reduction in the appeals about refusal to statement. I therefore welcome the Minister for Education's written statement setting out concerns about the stress caused to families where there is a high concession rate for decisions not to assess a child who may have SEN and pleased that the Minister has written to the Welsh Local Government Association to request they remind local authorities they must have regard to the SEN Code of Practice, to help avoid disputes.

Meanwhile, the Special Education Needs Tribunal for Wales regulations came into force at the beginning of March 2012. The regulations result from the Education (Wales) Measure 2009 and make provision for children and young people in Wales to have a right to appeal in respect of SEN and the right to make a claim in respect of disability discrimination in schools to the SENTW themselves.

## Looking forward

— **I will be gathering evidence in relation to the impact of these changes.**

## School toilets

### Looking back

In January this year we saw the publication by Welsh Government of the best practice guidance for school toilets in primary and secondary schools. It is aimed at local authorities, school Governing Bodies and Head Teachers and provides non-statutory guidance for the provision and management of toilet facilities for pupils in their schools.

Whilst the guidance does not go as far as what Professor Hugh Pennington recommended in his 'Pennington Report' (2009) in terms of local authority-led audits, it does enable schools to implement the spirit of Pennington's recommendations. It stipulates how local authorities need to have plans in place to ensure Governing Bodies receive this best practice guidance and ensure its full implementation so that we see real improvements and consistency in school toilet provision across Wales.

Governing Bodies will be required to include a statement in their annual report on the provision of school toilet facilities for pupils and the arrangements for cleaning the toilets.

## Looking forward

— **I am calling on Governing Bodies to ensure the views of learners are gleaned as part of this monitoring process.**

— **I am calling on Welsh Government to oversee the implementation of this guidance in order to ascertain if stronger statutory guidance is needed in the future.**

— **I will be gathering evidence from the children and young people I meet throughout the year to ascertain if the new guidance is having any impact.**



### Nod 3: Mwynhau'r iechyd corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posib

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Fy marn i... Rhaid i gynllunio a darparu cefnogaeth ar gyfer lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc gael ei yrru gan anghenion y plant a'r bobl ifanc hynny, yn hytrach na chael ei arwain gan ofynion systemau a gwasanaethau.

**Edrych yn ôl**  
Yn fy adroddiad blynyddol y llynedd fe wnes i groesawu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, yr ymgyrchu dros ymyrraeth gynnar a chynllun gweithredu Chwalu'r Rhwystrau. Fodd bynnag, nodais hefyd bryderon parhaus ynghylch darparu cefnogaeth gyson a phriodol i blant a phobl ifanc â phob lefel o anghenion. Galwais am gadw'r gweithwyr iechyd meddwl sylfaenol, ac rwy'n falch bod y swyddi hynny'n ddiogel ar hyn o bryd.

Ddiwedd 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Göd Ymarfer Drafft ar gyfer Rhannau 2 a 3 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010'. Fe wnes i alw am gyfeiriad clir yn y Cöd Ymarfer at hawliau plant a phobl ifanc i leisio eu barn ar bob mater sy'n effeithio arny nhw ac i gael eu barn wedi eu cymryd o ddifri.

Daeth yr ymgyngoriad ar Orchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012 i ben ym mis Mawrth 2012. Rwy'n nodi gyda phryder y diffyg blaenoriaeth a roddwyd yn yr ymgyngoriad i CCUHP a sut mae CAMHS yng Nghymru yn mabwysiadu'r egwyddorion a geir yn y Confensiwn. Ar sail cynnwys yr ymgyngoriad hwn bydd hawliau plant a phobl ifanc i dderbyn gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol a phriodol yng Nghymru yn cael eu pennu yn ôl trothwyon a difrifoldeb yr angen. Mae iechyd meddwl a lles emosiynol yn ffactorau pwysig ym mywyddau plant a phobl ifanc ac mae ganddynt hawl i gael mynediad i ymyrraeth amserol, er mwyn sicrhau bod modd diogel eu hiechyd meddyliol a'u lles ac atal problemau rhag gwaethygu. Rydym yn gwybod na fydd angen cynllun nac unigolyn i gydlynu eu gofal ar bob plentyn a pherson ifanc sy'n ymwneud â CAMHS, ond mae atal plant a phobl ifanc nad ydynt ond yn derbyn gwasanaethau cynnal iechyd meddwl sylfaenol (Rhan 1 o'r Mesur) rhag cael mynediad i ddarpariaeth o'r fath oherwydd nad ydynt yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (Rhan 2 o'r Mesur) yn mynd yn groes i agwedd seiliedig ar hawliau.

Rhaid i ni osgoi creu rhwystrau i wasanaethau, ac adlewyrchu dull o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar hawliau ac a arweinir gan anghenion. Eto, nid wyf yn credu bod drafft y Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) Cymru 2012 ar hyn o bryd yn adlewyrchu dull seiliedig ar hawliau, a bydd yn golygu bod rhaid i blant a phobl ifanc arddangos angen sylweddol cyn y darperir cynllun priodol a gwasanaeth priodol. Bydd hyn yn creu rhwystrau diangen i hawliau plant a phobl ifanc i dderbyn gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol a phriodol yng Nghymru, ac yn ehangu'r bwch gweithredu yr wyf wedi tynnu sylw ato'n gyson.

- Edrych ymlaen**
- Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y canllawiau a'r rheoliadau sy'n deillio o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn adlewyrchu dull clir, seiliedig ar hawliau, yn unol â CCUHP.
  - Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y Strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn adlewyrchiad cryf o ddull a seiliwyd ar CCUHP ac egwyddorion lles pennaf y plentyn.
  - Rwyf am fanteisio ar y cyfle hwn i nodi fy mwriad o graffu'n fanwl ar gynnydd CAMHS ledled Cymru yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Byddaf yn casglu'r dystiolaeth a ddaw i'm swyddfa adeg gweithredu'r Mesur a'r canllawiau dilynol i weld a oes effaith weladwy ar brofiadau plant a phobl ifanc. Nid wyf yn barod i dderbyn rhwystrau parhaus i ddarparu cefnogaeth ddigonol i les emosiynol a iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru, rhywbeth y mae ganddynt hawl i'w dderbyn.

## Cwrsela mewn ysgolion

**Fy marn i...**  
Dylai gwasanaethau cwrsela mewn ysgolion fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc pan fydd angen cefnogaeth o'r fath arnynt. Bydd sicrhau mynediad i wasanaethau megis cwrsela yn yr ysgol yn cynnal lles a mynediad i ystod o hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Edrych yn ôl**  
Mae strategaeth genedlaethol ar gyfer cwrsela mewn ysgolion yng Nghymru bellach yn ei lle ers bron pedair blynedd, ac rwy'n croesawu'r ymrwymiad parhaus i'w gweithredu a'i chyflwyno ledled Cymru. Argymhellwyd y datblygiad hwn gyntaf yn Ymchwiliad Clywch, a arweinwyd gan ein Comisiynydd Plant cyntaf. Nod y strategaeth oedd sicrhau bod darpariaeth gwrsela ar gael i bob disgybl ysgol. Ymddengys bod Llywodraeth Cymru yn dal i dderbyn yn gyffredinol bod hyswddo iechyd a lles mewn ysgolion yn creu amgylcheddau dysgu effeithiol, gan gyfrannu'n aml at ymdrin â materion iechyd emosiynol a lles plant a phobl ifanc cyn gynted â phosib.

Fe wnaeth gwerthusiad o'r strategaeth, a gomisiynydd gan Lywodraeth Cymru, nodi fod holl grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc oedd yn derbyn y gwasanaeth, yn credu fod gweithrediad y strategaeth yn llwyddiannus. Fodd bynnag, dangosodd y gwerthusiad fod rhai grwpiau, gan gynnwys rhai grwpiau BME a phlant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn cael eu tangynrychioli o ran y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cyrchu'r ddarpariaeth. Rwyf hefyd yn pryderu bod y gwerthusiad yn awgrymu y gallai'r ddarpariaeth fod yn gyfyngedig yn achos plant a phobl ifanc sydd am gael cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rwy'n pryderu bod y strategaeth yn nodi mai Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (PPPlau) sy'n arwain y gwasanaethau cwrsela mewn ysgolion ar lefel leol. Rwy'n pryderu y gallai newidiadau lleol i strwythurau cynllunio a phartneriaeth olygu bod rhai PPPlau yn diflannu, ac y gallai hynny olygu risg o ran datblygu ac ehangu gwasanaethau. Rhaid diogelu'r rôl hollbwysig hon wrth i newidiadau ddigwydd yn y strwythurau.

Rhaid i'r canllawiau statudol arfaethedig ar gwrsela mewn ysgolion a gynigiwyd yn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2011 fod yn eglur ynghylch ystyr 'darpariaeth resymol' a 'rhyw lefel o wasanaeth'. Mae'r termau hyn, fel y maent yn ymddangos yn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn agored i ddehongliad lleol, a gallent arwain at fynediad anghyson i blant a phobl ifanc. Rwy'n falch bod y Bil yn cynnwys cynnig i greu dyletswydd yng nghyswllt 'pobl ifanc eraill 11-19 oed o ardal yr awdurdod lleol' a rhaid i'r ddyletswydd i gasglu data ynghylch deilliannau gynnwys monitro'r rhai sy'n cyrchu'r ddarpariaeth nad ydynt yn ddisgyblion cofrestrdig mewn ysgol uwchradd.

### Aim 3: Enjoy the best possible physical, mental, social and emotional health

## Child and Adolescent Mental Health Services (CAMHS)

**What I think...**  
The planning and provision of support for the emotional and mental wellbeing of children and young people must be driven by the needs of those children and young people and not led by the demands of systems and services.

**Looking back**  
In my annual report last year I welcomed the Mental Health (Wales) Measure 2010, the drive for early intervention and the Breaking the Barriers action plan. However I also set out continuing concerns about provision of consistent and appropriate support to children and young people at all levels of need. I called for retention of primary mental health workers and I am pleased that these posts are currently secure.

At the end of 2011 Welsh Government issued 'Draft Code of Practice to Parts 2 and 3 of the Mental Health (Wales) Measure 2010'. I called for clear reference in the Code of Practice to the rights of children and young people to say what they think in all matters affecting them and to have those views taken seriously.

In March 2012 consultation on the Mental Health (Secondary Mental Health Services) (Wales) Order 2012 ended. I note with concern the lack of priority given within the consultation to the UNCRC and how CAMHS in Wales adopt the principles laid out within the Convention. The rights of children and young people to effective and appropriate mental health services in Wales, based on the content of this consultation, will be determined by thresholds and severity of need. Mental health and emotional wellbeing are significant factors in the lives of children and young people and it is their right to access timely intervention, to ensure that their mental health and wellbeing can be secured and problems do not deteriorate. We know that not all children and young people who access CAMHS will need a plan or an individual to co-ordinate their care, however, by disallowing children and young people who are only in receipt of primary mental health support services (Part 1 of the Measure) to access such provision because they are not receiving secondary mental health services (Part 2 of the Measure) goes against a rights-based approach.

We must avoid creating barriers to services and reflect both a rights-based and needs-led approach to service delivery. Again, I do not believe that the draft Mental Health (Secondary Mental Health Services) (Wales) Order 2012 currently reflects a rights-based approach and will result in children and young people having to demonstrate considerable need before an appropriate plan and service is provided. This will create unnecessary barriers to the rights of children and young people to effective and appropriate mental health services in Wales and increase the implementation gap that I have consistently highlighted.

### Looking forward

- I am calling on Welsh Government to ensure that guidance and regulation resulting from the Mental Health (Wales) Measure 2010 reflects a clear rights-based approach in line with the UNCRC.
- I am calling on Welsh Government to ensure that the new Mental Health Strategy for Wales that is currently being developed strongly reflects an approach based on the UNCRC and the principles of the best interests of the child.

— I wish to take this opportunity to signal my intent to robustly scrutinise the progress of CAMHS across Wales over the coming year. I will be gathering the evidence that comes to my Office on the implementation of the Measure and subsequent guidance documents to ascertain if there is a tangible impact on the experiences of children and young people. I am not prepared to accept continued barriers to providing children and young people in Wales with adequate support for their emotional wellbeing and mental health as is their right.

## School-based counselling

**What I think...**  
School-based counselling services should be available to all children and young people as and when they need such support. Ensuring access to services such as school-based counselling will support well-being and access to a range of rights for children and young people.

**Looking back**  
The national strategy for school-based counselling has now been in place for almost four years and I welcome the continued commitment to its implementation and delivery across Wales. This development was first recommended in the Clywch Inquiry, led by our first Children's Commissioner. The aim of the strategy was to ensure counselling provision was available to all school pupils. It appears to remain the case that the Welsh Government widely accepts that the promotion of health and wellbeing in schools creates effective learning environments and can often contribute to addressing the emotional health and wellbeing issues of children and young people as early as possible.

The Welsh Government commissioned evaluation of the strategy in 2010 reported that both the implementation of the strategy and service provision were generally viewed as successful across all stakeholder groups, including children and young people in receipt of such services. However the evaluation indicated that some groups including certain BME groups and children and young people with special educational needs are under-represented in terms of those children and young people accessing provision. I am also concerned that the evaluation suggested that provision may be limited for children and young people wishing to access support through the medium of the Welsh language.

I am concerned that the strategy identifies Children and Young People's Partnerships (CYPPs) as the strategic leads for local school-based counselling services and that local changes to planning and partnership structures may see some CYPPs disappearing which could pose a risk to the development and expansion of services. This vital role must be safeguarded whilst changes in structures are occurring.

Planned statutory guidance on school based-counselling proposed within the School Standards and Organisation (Wales) Bill 2011 must be clear on what is meant by 'reasonable provision' and 'some level of service'. These terms as they appear in the School Standards and Organisation (Wales) Bill are open to local interpretation and may lead to inconsistent access for children and young people. I am pleased that the Bill includes a proposed duty in relation to 'other young people aged 11-19 who belong to the local authority's area' and the duty to gather outcome data must include monitoring of those accessing provision who are not registered pupils of a secondary school.



Edrych ymlaen

— Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i’r argymhellion a wnaed yn adroddiad gwerthuso Cwnsela Ysgolion 2011 a chymryd camau priodol yn sgîl y pwerau newydd o dan Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2011 i ehangu’r ddarpariaeth i ysgolion cynradd.

— Byddaf yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru na fydd newidiadau i drefniadau cynllunio a phartneriaeth lleol yn atal y broses o ddatblygu ac ehangu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyswllt mynediad ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn mynychu lleoliadau addysg penodedig.

— Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y canllawiau statudol o dan y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yn ddigon cadarn i sicrhau na chyfyngir ar gwnsela mewn ysgolion o ganlyniad i’r trefniadau ariannu newydd. Mae angen sicrhau lefel gynaliadwy o arian i sicrhau fod y rhan yma o’r Bil yn llwyddo.

## Diogelu ac amddiffyn plant

Fy marn i...

**Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gael eu hamddiffyn rhag niwed. Rhaid i’r trefniadau newydd ar gyfer diogelu a gofal cymdeithasol fod yn ddigon cadarn i sicrhau nad anghofir y ffocws ar les pennaf y plentyn wrth geisio sicrhau systemau integredig.**

Edrych yn ôl

Yn fy adroddiad y llynedd fe gyflwynais fy ngweledigaeth ar gyfer bwrdd diogelu cenedlaethol o dan gadeiryddiaeth annibynnol, a fyddai’n pennu cylch gorchwyl byrddau lleol diogelu plant a materion amddiffyn plant. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyflwyno drafft o’r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ar gyfer ymgynghori. Mae’r Bil drafft yn cynnwys darpariaeth i sefydlu Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a fydd yn cwmpasu materion diogelu oedolion a phlant.

Rwy’n dal yn bendant bod dadleuon cryf dros sefydlu Bwrdd Diogelu Cenedlaethol Annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc, ac rwy’n pryderu y bydd y Bwrdd arfaethedig ar y cyd yn rhoi ei sylw i gyd i faterion sy’n ymwneud â’r fframwaith newydd statudol ar gyfer oedolion agored i niwed. Rwy’n falch y bydd Byrddau Diogelu Plant ar wahân yn cael eu sefydlu ar y chwe lefel ranbarthol, ond rwy’n pryderu’n fawr bod y Bil yn awgrymu y bydd y rhain ‘yn y man’ yn cael eu cyfuno â’r Byrddau Amddiffyn Oedolion.

Rwyf hefyd yn pryderu bod y Fforwm Diogelu Genedlaethol wedi dod i ben. Nid yw’n eglur pa drefniadau interim a wnaed i gynnal diogelu yng Nghymru ar lefel genedlaethol yn y cyfnod nes bod y trefniadau newydd o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu lle.

Edrych ymlaen

— Rwy’n ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru fod trefniadau interim yn cael eu rhoi ar waith i gynnal diogelu ar lefel genedlaethol cyn i’r trefniadau newydd ddod i’w lle o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol.

— Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i’m pryderon a sefydlu bwrdd diogelu cenedlaethol ar wahân ar gyfer plant.

— Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys cyfarwyddyd clir yn y canllawiau ar gyfer y Byrddau Diogelu Plant newydd rhanbarthol ynghylch prosesau i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn helpu i bennu’r blaenoriaethau.

## Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)

Fy marn i...

**“Children are not mini persons with mini rights, mini feelings and mini human dignity. They are vulnerable human beings with full rights which require more, not less protection.” Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Ewrop (2005)**

Edrych yn ôl

Ers i’m hadroddiad diwethaf gael ei gyhoeddi, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno drafft ymgynghori Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Mae’r Bil hwn yn cyflwyno newidiadau pwysig i’r ffyrdd o drefnu a darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Effen arwyddocaol yw y bwriedir i’r Bil gyflwyno gwasanaethau gofal cymdeithasol ar sail angen, yn hytrach nag oedran. Er fy mod wedi cael fy sicrhau nad yw hyn yn golygu na fydd y diffiniad o Blentyn mewn Angen o dan Ddeddf Plant 1989 yn weithredol bellach, mae’r symudiad at y cysyniad o ‘bobl mewn angen’ yn destun pryder i mi. Mae gan blant a phobl ifanc anghenion a hawliau unigryw, fel y gwelir yn CCUHP.

Un o egwyddorion y Bil yw ei fod yn ceisio hyrwyddo ‘llais cryfach a rheolaeth wirioneddol’ ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, ond nid yw’r drafft ymgynghori’n nodi’n glir ym mha ffyrdd y sicheir hynny ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae fy adolygiad diweddar o eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer grwpiau cymwys o blant a phobl ifanc wedi nodi’r angen am welliannau sylweddol yng nghyswllt ymwbyddiaeth o eiriolaeth a mynediad iddi. Os yw plant a phobl ifanc i gael llais cryfach a rheolaeth wirioneddol yn y system newydd o ofal cymdeithasol, rhaid gweithredu argymhellion fy adolygiad eiriolaeth. Rwy’n cefnogi’r angen am wasanaethau integredig sy’n darparu cymorth cyfannol i deuluoedd, ond mae rhaid i ni gadw rôl glir ar gyfer gweithiwr cymdeithasol proffesiynol sydd yno’n unig i gynrychioli lles pennaf y plentyn. Rhaid datblygu gofal cymdeithasol mewn modd sy’n cynnal gwasanaethau a seilwyd ar berthynas lle mae’r plentyn yn ganolog.

Rwy’n croesawu cynlluniau ar gyfer Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol a Chôd Ymarfer o dan y Bil i wella mynediad cyson i gefnogaeth ar sail angen ledled Cymru. Rhaid i’r cyfarwyddbau hyn gysylltu’n uniongyrchol â CCUHP, cynnwys mesurau i sicrhau bod llais gan bob plentyn yn y prosesau cynllunio gofal ac asesu newydd, a nodi’n fanwl yr angen am ymateb i anghenion unigryw plant a phobl ifanc.

Rwyf hefyd yn croesawu cynlluniau i greu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac rwy’n gobeeithio y bydd hyn yn gwella’r sefyllfa gyfredol sy’n golygu bod rhaid i blant a phobl ifanc sydd â chynllun mabwysiadu aros am gyfnodau hir i ymuno â theulu mabwysiadol. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati’n rhagweithiol i geisio barn plant, pobl ifanc a rhieni mabwysiadol i hysbysu datblygiad y gwasanaeth newydd hwn.

Byddaf yn cyflwyno ymateb ymgynghori llawn i’r Bil drafft, a fydd wedi ei hysbysu gan farn plant a phobl ifanc. Mae’n hanfodol ein bod, wrth ddatblygu dyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn gallu gweld y byd o bersbectif y plant a’r bobl ifanc sy’n destun ein hymyriadau.

Edrych ymlaen

— Rwy’n galw ar Lywodraeth Cymru i gadw ffocws cadarn ar les pennaf y plentyn a CCUHP yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) terfynol a’r rheoliadau a’r canllawiau dilynol.

— Rhaid adeiladu tirlun gofal cymdeithasol newydd yng Nghymru ar graig CCUHP, a rhaid cryfhau’r ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol seiliedig ar hawliau sydd â mecanweithiau cryf ar gyfer sicrhau llais y plentyn.

Looking forward

— I am calling on Welsh Government to address the recommendations made within the School Counselling 2011 evaluation report and to take appropriate measures through new powers under the School Standards and Organisation (Wales) Bill 2011 to expand provision to primary schools.

— I will be seeking assurances from the Welsh Government that changes to local planning and partnership arrangements will not impede the development and expansion of school-based counselling services. This is of particular importance in relation to access for children and young people who do not attend specified education settings.

— I am calling on the Welsh Government to ensure that statutory guidance under the School Standards and Organisation (Wales) Bill is robust enough to ensure that school-based counseling provision reflects the effective quality assurance, standards and access. A sustainable level of funding to enable full implementation of school-based counseling aspect of the Bill must be ensured.

## Safeguarding and child protection

What I think...

**Children and young people have a right to protection from harm. New arrangements for safeguarding and social care must be robust enough to ensure that a focus on the best interests of the child is not forgotten in the drive for integrated systems.**

Looking back

In last year’s annual report I set out my vision for an independently chaired national safeguarding board to set the remit for local safeguarding children boards and child protection issues. Welsh Government has now issued a draft of the Social Services (Wales) Bill for consultation. The draft Bill includes provision to establish a National Independent Safeguarding Board that will cover both adult and children’s safeguarding issues.

I remain convinced that there are strong arguments for the establishment of a separate National Independent Safeguarding Board for children and young people and I am concerned that the proposed joint Board will be consumed with issues related to the new statutory framework for vulnerable adults. Whilst I am pleased that separate Safeguarding Children Boards will be established at the six regional levels I am very concerned that the Bill suggests that ‘in time’ these will be merged with Adult Protection Boards.

I am also concerned that the National Safeguarding Forum has been disbanded. It is not clear what interim arrangements have been made to support safeguarding in Wales at a national level in the period before new arrangements under the Social Services Bill are in place.

Looking forward

— I am seeking reassurance from Welsh Government that interim arrangements are being put in place to support safeguarding at a national level in advance of new arrangements under the Social Services Bill.

— I am calling on Welsh Government to address my concerns and establish a separate national safeguarding board for children and young people.

— I am calling on Welsh Government to include in the guidance for new regional Children’s Safeguarding Boards clear direction on processes to ensure that the voice of children and young people help to determine priorities.

## Social Services (Wales) Bill

What I think...

**“Children are not mini persons with mini rights, mini feelings and mini human dignity. They are vulnerable human beings with full rights which require more, not less protection.” Deputy Secretary General, Council of Europe (2005)**

Looking back

Since my last report was published Welsh Government has issued the consultation draft of the Social Services (Wales) Bill. This Bill introduces major changes in the ways in which social care will be organised and delivered in Wales. Significantly the Bill is intended to introduce social care services provided on the basis of need and not of age. Although I have been assured that this does not mean that the definition of a Child in Need under the Children Act 1989 will no longer operate the move to a concept of ‘people in need’ is of concern to me. Children and young people have distinct needs and rights as reflected in the UNCRC.

One of the principles of the Bill is that it aims to promote a ‘stronger voice and real control’ for service users however the consultation draft does not clearly set out the ways in which this will be secured for children and young people. My recent review of independent professional advocacy for eligible groups of children and young people has identified the need for major improvements in relation to awareness of and access to advocacy. If children and young people are to exercise a stronger voice and real control in the new social care system the recommendations of my advocacy review must be implemented. I support the need for integrated services that provide holistic support to families but we must retain a clear role for a social work professional who is there solely to represent the best interests of the child. Social care must be developed in a way that supports child-centred relationship based services.

I welcome plans for a National Eligibility Framework and Code of Practice under the Bill to improve consistent access to support on the basis of need across Wales. These directives must relate directly to the UNCRC, include measures to ensure that every child has a voice in new assessment and care planning processes and set out in detail the need to respond to the distinct needs of children and young people.

I also welcome plans for a National Adoption Service and I hope that this will improve the current situation where children and young people with an adoption plan have to wait for long periods to join an adoptive family. Welsh Government should actively seek the views of children, young people and adoptive parents to inform the development of this new service.

I will be submitting a full consultation response to the draft Bill which will be informed by the views of children and young people. It is crucial that in developing the future of social care in Wales we are able to see the world from the perspective of the children and young people who are the subject of our interventions.

Looking forward

— I am calling on Welsh Government to retain a strong focus on the best interests of the child and the UNCRC in the final Social Services (Wales) Bill and subsequent regulation and guidance.

— The new social care landscape in Wales must be built on the bedrock of the UNCRC and there must be a strengthened commitment to the rights based delivery of social services with clear mechanisms for securing the voice of the child.



## Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

Fy marn i...

Mae gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal hawl i dderbyn yr un lefel o gefnogaeth ag a roddir gan unrhyw riant i'w plentyn wrth iddyn nhw dyfu i fyny a datblygu'n oedolion.

### Edrych yn ôl

Wrth gynhyrchu'r cyhoeddiad 'Ar Goll ar ôl Gofal' a'r adnodd ar gyfer pobl ifanc, 'Fy Nghynllunlydd', cynhaliodd fy Swyddfa ymchwil gyda bron 120 o blant a phobl ifanc oedd mewn gofal maeth, gofal preswyl, neu a oedd wedi gadael gofal. Y nod oedd archwilio'r materion mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth ddechrau cynllunio ar gyfer byw'n annibynnol a chanfod tystiolaeth o arfer da. Roedd yr ymchwil yn awgrymu nad yw plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal yn aml yn ymwybodol o'u hawliau a'r pethau y dylent eu cael, ac nad ydynt o bosib yn derbyn y gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddi wrth symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Rhaid i'r sefyllfa hon newid, a darparodd 'Ar Goll ar ôl Gofal' 29 o welliannau arfer a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru.

Nodais â diddordeb Fil preifat yr aelodau a gyflwynodd gnigion ar gyfer deddfwriaeth newydd ynghylch terfynu gofal yn fwy graddol, a'i deilwra at anghenion y person ifanc, nes eu bod yn 25 oed. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cael hyd i dystiolaeth o dueddiad parhaus i bobl ifanc fyw gartref gyda'u rhieni ymhell i'w hugeiniau ac wedi hynny. Fodd bynnag, mae disgwyl i lawer o'r bobl ifanc y mae gan y wladwriaeth gyfrifoldeb rhiant amdanynt fyw'n annibynnol heb gefnogaeth ddigonol yn llawer ifancach na'u cymheiriaid. Yn achos y bobl ifanc hyn sydd wedi bod yn derbyn gofal, ac sydd wedi penderfynu peidio â pharhau â'u haddysg, rwy'n credu bod y gefnogaeth yn cael ei therfynu'n rhy gynnar wrth iddynt ddatblygu'n oedolion.

Bu'r deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn destun pryder i'm swyddfa ac i Lywodraeth Cymru ers peth amser. Rwy'n pryderu bod adroddiad blynyddol diweddaraf Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi nodi mai 60% yn unig o'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal oedd yn cael eu cynnal gan gynlluniau addysg personol amserol yn 2010-11. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Reoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsari Addysg Uwch) (Cymru) ar gyfer plant a fu gynt yn berthnasol (rhai sy'n gadael gofal)' yn 2011. Mae'r rhain yn darparu ar gyfer bwrsariau addysg uwch yn fodd i sicrhau dilyniant yn y gefnogaeth i'r rhai sy'n gadael gofal, sef y cyntaf i dderbyn cyllid RHAGORI, dderbyn cymorth ariannol yn ôl eu cynllun llwybr. Mae hwn yn gam pwysig i ddileu rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc a fu'n derbyn gofal ac sydd am fynd ymlaen i addysg uwch, ac mae rhaid i'r ymdrechion barhau i sicrhau dewis addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

### Edrych ymlaen

— Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau a gyflwynwyd yn fy adroddiad 'Ar Goll ar ôl Gofal'. Byddaf yn gofyn am adborth ysgrifenedig gan y rhai sydd â dyletswydd a rhanddeiliaid yng nghyswllt gweithredu'r blaenoriaethau hyn ar gyfer gwella gwasanaethau.

— Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i dderbyn egwyddor yr angen am derfynu gofal yn fwy graddol a'i deilwra i anghenion y person ifanc hyd at 25 oed.

— Rwy'n galw ar awdurdodau lleol i weithredu er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi gan gynlluniau addysg personol amserol.

— O ganlyniad i adborth gan bobl ifanc a fu'n helpu i ddatblygu 'Fy Nghynllunlydd', byddaf yn trefnu cyfarfod cenedlaethol o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal, fel bod modd iddynt ddod at ei gilydd a chwrrd â phobl ifanc eraill sydd yn yr un sefyllfa oedd.

## Gofalwyr ifanc

Fy marn i...

Rhaid i ni ymateb i anghenion unigryw gofalwyr ifanc a gwranddo ar yr hyn mae gofalwyr ifanc yn dweud bod ei angen arnyn nhw, fel eu bod yn cael mynediad i'w hawliau a'r plentynod maen nhw'n ei haeddu.

### Edrych yn ôl

Yn 2010 fe nodais fy mwriad i fonitro datblygiad canllawiau a rheoliadau o dan Fesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) ac i sicrhau bod anghenion unigryw gofalwyr ifanc yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol. Rwyf yn siomedig felly nad yw 'Canllawiau Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010', a gyflwynwyd i Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol ym mis Ionawr 2012 yn ymateb yn llawn i'r materion a amlygwyd gennyf yn adroddiad blynyddol y llynedd. Ar hyn o bryd byddai'n gymharol syml darllen y canllawiau heb deall yn llawn sut maent yn berthnasol i ofalwyr ifanc.

Yn y canllawiau cyfeirir at yr angen am ystyried asesu gofalwr ifanc fel plentyn mewn angen o dan Ddeddf Plant 1989, ond ni roddwyd digon o amlygrwydd i hynny. Rwy'n croesawu cynnwys rheidrydd i strategaethau lleol gynnwys pennod ar anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, rwy'n pryderu, er bod CCUHP a Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 wedi eu cynnwys mewn atodiad, na cheir unrhyw gyfeiriad at y fframweithiau hyn yng nghorff y ddogfen. Rwy'n croesawu'n fawr y gosodiad bod gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod fel grŵp unigryw ag anghenion penodol, ond eu bod yn cael eu cydnabod yn anad dim fel plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod yr egwyddor hon yn cael ei hadlewyrchu'n ddigonol yn y canllawiau.

### Edrych ymlaen

— Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn ystyried, wrth asesu a yw strategaethau gofalwyr lleol yn addas at y diben, i ba raddau mae pob strategaeth yn cydnabod gofalwyr ifanc fel grŵp unigryw ag anghenion penodol, yn mabwysiadu fframwaith CCUHP, ac yn cynnwys mesurau clir ar gyfer asesu anghenion y plentyn.

— Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut gellir defnyddio'r Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol a'r Côt Ymarfer sy'n cael eu cyflwyno o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) yn offeryn i sicrhau bod asesiad o angen ar gael i bob gofalwr ifanc.

— Rwy'n galw ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i ystyried gofalwyr ifanc fel gr p unigryw ag anghenion penodol, i fabwysiadu fframwaith CCUHP yng nghyswllt gofalwyr ifanc ac i feddu ar brosesau clir ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ifanc ar sail lles pennaf y plentyn.

— Rwy'n galw ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ystyried y galwadau a gynhwyswyd yn fy adroddiad 'Bywyd Llawn Gofal' (2009) wrth ddatblygu ac asesu digonolrwydd mesurau a gefir mewn strategaethau lleol i ymateb i anghenion gofalwyr ifanc.

>>>

## Looked after children and young people

What I think...

Children and young people who are looked after or who are leaving care have the right to the same level of support that any parent gives to their child as they grow up and head towards adulthood.

### Looking back

In producing the publication 'Lost After Care' and the resource for young people, 'My Planner', my Office undertook research with nearly 120 children and young people who were in foster care, residential care or who had left care. The aim was to explore the issues that young people face when they start planning to live independently and to identify evidence of good practice. The research suggested that looked after children and young people leaving care are often not aware of their rights and entitlements and may not get the support they are entitled to as they move on to independent living. This situation has to change and 'Lost After Care' provided 29 practice improvements directed at Welsh Government and local authorities in Wales.

I noted with interest the private members Bill that made proposals for new legislation on care being phased out more slowly, tailored to the young person's needs, until up to the age of 25. The Office for National Statistics has evidenced a continued trend in young people living at home with their parents well into their twenties and beyond. However many of the young people that the state has parental responsibility for are expected to live independently without adequate support at a much earlier age than their peers. For these young people who have been looked after and have decided not to continue with their education, I believe support is being withdrawn too early in their transition to adulthood.

Educational outcomes for looked after children and young people have been an area of concern for my office and for Welsh Government for some time. I am concerned that the latest annual report of the Chief Inspector of the Care and Social Services Inspectorate Wales reported that only 60% of looked after children and young people were supported by timely personal educational plans in 2010-11. The Welsh Government introduced 'Children Act 1989 (Higher Education Bursary) (Wales) for former relevant children (care leavers) Regulations' in 2011. These provide for higher education bursaries as a mechanism for the continuity of support of care leavers, who were the first recipients of RAISE funding, to receive financial support according to their pathway plan. This is an important step in removing some of the barriers facing young people who have been looked after and who wish to continue into higher education and efforts to secure educational choice for looked after children and young people must continue.

### Looking forward

— I am calling on Welsh Government and local authorities in Wales to implement the priorities for service improvement set out in my 'Lost After Care' report. I will be seeking written feedback from duty bearers and stakeholders in relation to the implementation of these priorities for service improvement.

— I am calling on Welsh Government to accept the principle of the need for care to be phased out more slowly and tailored to the young person's needs up to the age of 25.

— I am calling on local authorities to take action to ensure all looked after children and young people are supported by timely personal education plans.

— As a result of feedback from young people who helped develop 'My Planner', I will be organising a national meeting of looked after children and young people and care leavers so that they can come together and meet other young people in the same situations as them.

## Young carers

What I think...

We must respond to the distinct needs of young carers and we must listen to what young carers say they need so that they get access to their rights and the childhood they deserve.

### Looking back

In 2010 I stated my intention to monitor the development of guidance and regulation under the Carer's Strategies (Wales) Measure and to ensure the distinct needs of young carers were adequately reflected. I am therefore disappointed that the 'Carers Strategies (Wales) Measure 2010 Guidance' issued to Local Health Boards and Local Authorities' in January 2012 does not fully respond to the issues I highlighted in last year's annual report. As it stands it would be relatively easy to read the guidance without fully understanding its application to young carers.

Within the guidance there is reference to the need to consider an assessment of a young carer as a child in need under the 1989 Children Act but this has not been given sufficient prominence. I welcome the inclusion of a requirement for local strategies to include a chapter on the needs of young carers. I am however concerned that although the UNCRC and Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 are included in an annex any reference to these frameworks is absent from the main document. I very much welcome the statement 'that young carers are recognised as a distinct group with specific needs, but are recognised first and foremost as children and young people'. However I do not believe that this principle is adequately reflected within the guidance.

### Looking forward

— I am calling on Welsh Government to ensure that in assessing whether local carers strategies are fit for purpose they consider how for each strategy recognises young carers as a distinct group with specific needs, adopts a UNCRC framework and has clear measures for an assessment of needs of the child.

— I am calling on Welsh Government to identify the means through which the National Eligibility Framework and Code of Practice being introduced under the Social Services (Wales) Bill can be used as a vehicle to ensure that an assessment of need is available to all young carers.

— I am calling on local health boards and local authorities to consider young carers as a distinct group with specific needs, to adopt a UNCRC framework in relation to young carers and to have clear processes for the assessment of young carers needs on the basis of the best interests of the child.

— I am calling on local health boards and local authorities and Welsh Government to consider the calls included in my 'Full of Care' report (2009) in developing and assessing the adequacy of measures in local strategies to address the needs of young carers.

>>>



## Adolygu gofal seibiant yng Nghymru

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad o ofal seibiant yng Nghymru yn 2011. Roeddwn yn falch o weld bod cwmpas yr adolygiad yn cynnwys gofalwyr ifanc a darparu seibiant ar gyfer gofalwyr plant a phobl ifanc anabl. Gofynnais am i ganllawiau yn y dyfodol gynnwys adran yn benodol ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr plant a phobl ifanc anabl.

Mae Canllawiau dilynol Mesur Strategaethau Gofalwyr (Cymru) 2010 yn cyflwyno meysydd gwybodaeth a chymorth, gan gynnwys gofal seibiant ac egwyliau byr, y dylid eu hystyried a'u darparu i ofalwyr fel sy'n briodol, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'w hoedran, eu gofynion iaith, eu gofynion diwylliannol, anabledd ac unrhyw angen penodol arall.

Mae gennyf bryderon parhaus bod dealltwriaeth ddigonol o anghenion gofalwyr ifanc yn dal heb ei sicrhau, ac felly na fydd y cyllid na'r gwasanaeth a ddarperir yn cyrraedd yr hyn sy'n angenrheidiol yn fy marn i, a hynny o bell ffordd. Mae anghenion gofalwyr ifanc a'r datrysiadau seibiant gorau ar eu cyfer yn ddramatig o wahanol i eiddo mwyafrif y gofalwyr, sydd ar y cyfan yn bobl hŷn. Mae angen ymdrin â'r plant a'r bobl ifanc hyn mewn modd arbennigol, na fydd o reidrwydd yn cynnwys gofal preswyl na darpariaeth dros nos. Yn hytrach, mae'r plant a'r bobl ifanc a gyfrannodd at fy adroddiad 'Bywyd Llawn Gofal' yn galw am fwy o gyfleoedd i gyrchu'r gefnogaeth sydd ar gael trwy brosiectau gofalwr ifanc a mynediad mwy hwylus, gyda chymhorthdal sylweddol, i gyfleusterau hamdden a chldiant, fel eu bod yn gallu cael cyfleoedd i fwynhau eu plentynod, a rhyddid o gyfrifoldebau gofal.

## Egwyliau i ofalwyr plant a phobl ifanc anabl

Daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Egwyliau i Ofalwyr Plant Anabl' i ben ym mis Mawrth 2012. Yn amlwg mae gan egwyliau byr ar gyfer gofalwyr plant a phobl ifanc anabl swyddogaeth ddeuol, sef darparu egwyl a chyfnod o seibiant ar gyfer y gofalwyr, ac ar yr un pryd roi cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc anabl fod yn rhan o weithgareddau cymdeithasol a hamdden. Gall hyn hybu annibyniaeth, galluogi cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol, a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwarae a hamdden. Rwyf wedi galw am ffocws cliriach ar anghenion y plentyn, ochr yn ochr ag anghenion y gofalwyr. Rwyf hefyd wedi gofyn am gynnwys mesurau i gynnal llais y plentyn wrth asesu, cynllunio a dylunio anghenion gwasanaethau oddi mewn i'r canllawiau. Rwy'n gobeithio gweld y newidiadau hyn yn cael eu cynnwys yn y drafft terfynol, a byddaf yn cyflwyno sylwadau pellach i Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi pwysau arnynt a'u gorfodi i ymdrin â'r materion hyn yn 'Egwyliau i Ofalwyr Plant Anabl'.

Deallaf y dylai elfen bwysig, ond nid neilltuedig, o gefnogaeth i blant anabl a'u teuluoedd eistedd oddi fewn Teuluoedd yn Gyntaf. Nodaf fod adolygiad Arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2012, yn cynnwys cyfeiriadau prin iawn at gymorth penodol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd.

### Edrych ymlaen

— Byddaf yn **asesu** effeithiolrwydd darpariaeth y gefnogaeth ar gyfer plant anabl a'u teulouedd.

## Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth

Lansiwyd y FfGC ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn 2005, ac mae'n cyflwyno safonau pwysig o ran y ddarpariaeth o gymorth a gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r FfGC yn cyflwyno safonau ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau ac anhwylderau iechyd meddwl, plant a phobl ifanc anabl, plant a phobl ifanc mewn amgylchiadau arbennig, a phlant a phobl ifanc sy'n dioddef salwch aciwt a chronig neu anaf. Amlygodd yr adroddiadau blynyddol a gynhyrchwyd gan y Swyddfa hon yn 2005 a 2006 bryderon ynghylch gweithredu'r FfGC. Rwy'n ymwybodol bod adolygiad o'r FfGC wedi ei gychwyn yn 2008 ac rwy'n deall bod proses o adolygu ac 'adnewyddu'r FfGC wedi bod ar waith, er nad yw manylion y broses hon yn glir.

Mae nifer o'r materion a ddeuwyd at fy sylw yn ddiweddar yn ymwneud yn uniongyrchol â diffyg darpariaeth mewn meysydd sy'n rhan o safonau'r FfGC. Rwy'n ymwybodol bod adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl ac emosiynol, a gyhoeddwyd yn 2009, wedi argemell rhoi mesurau ar waith i graffu ar berfformiad, gan gwmpasu holl ystod y materion perthnasol a gynhwyswyd yn y FfGC, a bod y canlyniadau hynny'n cael eu rhoi ar led. Mae fy swyddogion wedi cwrrd â rhieni o Grŵp Rhieni/Gofalwyr Anhwylder Sbectrwym Awstistig mewn un awdurdod lleol, sydd wedi cael ar ddeall y bydd protocol pontio, y bu mawr ddisgwyl amdano, yn unol â safonau'r FfGC, wedi ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2012, saith mlynedd wedi cyhoeddi'r FfGC ar gyfer plant, pobl ifanc a'r gwasanaethau mamolaeth.

### Edrych ymlaen

— Fy mwriad i yw gofyn i **Lywodraeth Cymru roi diweddariad i mi ar statws cyfredol y FfGC ar gyfer plant, pobl ifanc a'r gwasanaethau mamolaeth, gan ddarparu gwybodaeth i mi ynghylch y mesurau sydd yn eu lle i graffu ar weithredu ar lefel leol.**

## Cadeiriau olwyn

Yn fy adroddiad y llynedd fe nodais fy mod yn fodlon ar ganlyniadau Cam 2 o Adolygiad Cymru Gyfan ar Ystum Corff a Symudedd, ac fe groesawais ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau i ddefnyddwyr cadair olwyn. Gelwais ar Lywodraeth Cymru i fonitro effaith y cyllido hwnnw ar brofiadau'r plant a'r bobl ifanc y mae angen cyfarpar o'r fath arnynt.

### Edrych ymlaen

— Byddaf yn gofyn i **Lywodraeth Cymru roi diweddariad i mi ar y cynnydd o ran cyflawni'r cyfryw ymarferiad monitro. Elfen bwysig o hyn fydd asesu cynllun strategol a'r model gynaliadwy i sicrhau parhad mewn unrhyw gynnydd.**

## Gofal iechyd parhaus

Y llynedd lleisiais bryderon ynghylch oedi hir wrth gynhyrchu canllawiau i blant a phobl ifanc ar ofal iechyd parhaus. Rwy'n croesawu cyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori, a chydabyddiaeth glir a phendant na ellir diwallu anghenion plant a phobl ifanc gan offeryn canllawiau ac asesu sydd wedi ei seilio ar oedolion.

Mae fy swyddfa wedi cael ar ddeall gan weithwyr proffesiynol mewn byrddau iechyd lleol eu bod wedi bod yn disgwyl am y canllawiau hyn er mwyn darparu model terfynol, clir o'r gwaith i gynnal dealltwriaeth gyffredin o ofal parhaus ar draws byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol. Nid wyf yn teimlo y bydd y canllawiau hyn yn eu ffurf bresennol yn cyflawni'r disgwyliad hwn yn llawn.

## Review of respite care in Wales

Welsh Government consulted on the review of respite care in Wales in 2011. I was pleased to see that the scope of the review did include young carers and the provision of respite to the carers of disabled children and young people. I asked for future guidance to include a section specifically for young carers and carers of disabled children and young people.

The subsequent Carers Strategies (Wales) Measure 2010 Guidance sets out areas of information and support including respite care and short breaks, that should be considered and provided to carers as appropriate, making sure that full account is taken of their age, language requirements, cultural requirements, disability and any other specific need.

I do have ongoing concerns that there is still not an adequate understanding of the needs of young carers and that therefore funding and service provision will fall far short of what I believe is necessary. The needs of young carers and the best respite solutions for them are dramatically different to those of the majority of carers who are generally older people themselves. These children and young people need a specialised approach which will not necessarily involve residential care or overnight provision. Rather, the children and young people who contributed to my 'Full of Care' report are calling for increased opportunities to access the support available through young carers projects and easier and highly subsidised access to leisure and transport facilities in order to enable them to have opportunities to enjoy their childhood with freedom from the responsibilities of caring.

## Breaks for carers of disabled children and young people

The Welsh Government consultation on 'Breaks for Carers of Disabled Children' ended in March 2012. Short breaks for carers of disabled children and young people clearly have a dual function of providing a break and respite for the carers whilst also giving the disabled child or young person an opportunity to engage in social and leisure activities. This can promote independence, enable participation in community activities and give increased opportunities for play and leisure. I have called for a clearer focus on the child's needs alongside those of the carers. I have also asked for inclusion of measures to support the child's voice in the assessment, planning and design of services needs within the guidance. I hope to see these changes included in the final draft and I will be making further representations to Welsh Government to press that these issues must be addressed in 'Breaks for Carers of Disabled Children'.

I understand that an important, but not exclusive, element of support for disabled children and their families should sit within Families First. I note that the review of Families First Pioneers commissioned by Welsh Government and published in January 2012 contains very little reference to specific support for disabled children and young people and their families.

### Looking forward

— I will be **assessing** how support services for disabled children and their families are delivered locally.

## National Service Framework (NSF) for Children, Young People and Maternity Services

The NSF for Children, Young People and Maternity Services was launched in 2005 and sets out important standards in support and service provision for children and young people in Wales. The NSF sets out standards for children and young people with mental health problems and disorders, disabled children and young people, children and young people in special circumstances and children and young people with acute and chronic illness to injury. The annual reports produced by this Office in 2005 and 2006 highlighted concerns about the implementation of the NSF. I am aware that a review of the NSF was initiated in 2008 and I understand that a review and 'refresh' of the NSF has been underway, although the details of this process are not clear.

A number of issues that have been brought to my attention recently relate directly to a lack of provision in areas covered by NSF standards. I am aware that the Wales Audit Office review of services for children and young people with emotional and mental health needs published in 2009 recommended that measures be put in place for the scrutiny of performance covering the full range of relevant issues included in the NSF and that these results be made widely available. My officers have met with parents from an Autistic Spectrum Disorder Parent/Carer Group in one local authority who have been told that a long-awaited transition protocol in line with NSF standards will be completed in December 2012, seven years after the publication of the NSF for children, young people and maternity services.

### Looking forward

— I am requesting that **Welsh Government provide me with an update on the current status of the NSF for children, young people and maternity services and provide me with information on the measures in place to scrutinise implementation at a local level.**

## Wheelchairs

In my annual report last year I stated that I was content with the outcomes of Phase 2 of the All Wales Posture and Mobility Review and I welcomed the provision of additional funding for wheelchair services. I called on Welsh Government to monitor the effect of that funding on the experiences of children and young people who require such equipment.

### Looking forward

— I am asking **Welsh Government to provide me with an update on progress in carrying out such a monitoring exercise. An important element of this will be to assess the strategic approach and sustainable model in order to maintain pace of progress.**

## Continuing health care

Last year I raised concerns about a long delay in the production of children and young people's guidance on continuing health care. I welcome the publication of draft guidance for consultation and the clear and definite acknowledgement that children and young people's needs cannot be met by an adult based guidance and assessment tool.

My office has been told by professionals within local health boards that they have been waiting for this guidance to provide a definitive and clear model of working to support a common understanding of continuing care across local health boards and local authorities. I do not feel that this guidance in its current form will fully meet this expectation.

I do welcome the fact that this document clearly and categorically states the importance of a child rights approach under the UNCRC and that there is a constant and repeated theme that the voice of the child should be heard and that the child's needs and views are at the centre of the process.

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y ddogfen hon yn nodi'n glir ac yn ddiamheuol bwysigrwydd agwedd a seiliwyd ar hawliau plant o dan CCUHP. Dwi hefyd yn falch fod thema gyson a ailadroddir y dylid clywed llais y plentyn ac mai anghenion a barn y plentyn sy'n ganolog i'r broses. Fodd bynnag, mae angen mwy o gyfarwyddyd ar weithdrefnau cwynion yn y canllawiau. Rwy'n disgwyl drafft terfynol y canllawiau, ac rwy'n gobeithio y bydd yn ymdrin â rhai o'r pryderon yr wyf wedi eu hamlinellu yma ac yn fy ymateb i'r ymgynghoriad.

Daeth yr ymgynghori ar y canllawiau hyn i ben ym mis Mawrth 2012, ac rwyf wedi ymateb iddo.

#### Edrych ymlaen

— **Rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru fonitro gweithrediad y canllawiau newydd hyn yn ofalus.**

## Ymddygiad rhywiol niweidiol

Y llynedd roeddwn yn edrych ymlaen at gyhoeddi Protocol Cymru Gyfan ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, a gelwais ar y rhai yr oedd dyletswydd arnynt i adolygu'r gwasanaethau y maent yn eu comisiynu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ymddygiad rhywiol niweidiol. Cyflwynwyd Protocol Cymru Gyfan: Rheoli Pobl Ifanc sydd ag ymddygiad rhywiol niweidiol ar gyfer ymgynghori ym mis Tachwedd 2011. Nid yw'r drafft terfynol wedi ei gyhoeddi eto. Unwaith bydd y protocol wedi ei gyhoeddi, byddaf yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gynllunio ar gyfer adolygu ei weithrediad.

## Masnachu mewn pobl

Rwy'n falch bod Protocol Cymru Gyfan ar Fasnachu mewn Plant wedi cael ei gyflwyno yn 2011. Wrth groesawu cyhoeddi'r protocol, nododd y Gweinidog effaith fy adroddiad 'Ffiniau Pryder' yn 2009 a chanfyddiadau Gr p Trawsbleidiol y Cynulliad ar Fasnachu mewn Pobl o ran tynnu sylw at y mater. Roedd penodi Cydgysylltydd cyntaf Cymru Gyfan ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl hefyd yn arwyddocaol. O ganlyniad i'r penodiad hwn, rwy'n deall bod dros 70 o sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth wedi cael eu darparu i randdeiliaid allweddol ledled Cymru – sef un o'r argymhellion oedd yn 'Ffiniau Pryder'.

Rwyf wedi cwrrd â Chydgysylltydd Cymru Gyfan ar gyfer Atal Masnachu mewn Pobl, a byddaf yn parhau i gefnogi ei waith ym mhob ffordd sydd ar gael i mi.

#### Edrych ymlaen

— **Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu gweithrediad y protocol newydd.**

## Ecsbloetio plant yn rhywiol

Bellach mae'r adolygiad o weithrediad y Canllawiau newydd ar ecsbloetio plant yn rhywiol, y cyfeiriais atynt yn fy adroddiad y llynedd, wedi digwydd. Rwy'n disgwyl cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad hwn, a byddaf yn rhoi ymateb ysgrifenedig i'r canfyddiadau i Lywodraeth Cymru.

## Rhywioli plant a phobl ifanc

Ym mis Mehefin 2011 cyhoeddwyd Adolygiad Bailey ar Fasnacheiddio a Rhywioli Plentynod. Dilynwyd hynny'n fuan gan ddaol yn y Senedd ar 'Gadewch i Blant fod yn Blant' dan arweiniad Jocelyn Davies AC – dyma oedd y tro cyntaf i ddaol ar faterion o'r fath gael ei sicrhau yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn fy ymateb i'r ddaol honno, gelwais am ddadansoddi barn plant a phobl ifanc ar y materion dan sylw, gan fod yr adolygiadau hyd hynny wedi cael eu gyrru gan agendâu oedolion i raddau helaeth.

Sefydlwyd grŵp trawsbleidiol newydd – Plentynod, Rhywioldeb, Rhywioli a Chydraddoldeb – yr hydref hwnnw gyda'r nod o sicrhau bod cydraddoldeb, hawliau plant a'u llais yn ganolog i'r broblem. Bydd fy swyddogion i, yn eu rôl fel sylwedyddion ar y grŵp hwnnw, yn cydweithio'n agos ag Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd a'r aelodau eraill i wneud y canlyniol:

- **datblygu a chytuno ar ddiffiniad o rywioldeb a rhywioli ar sail ymchwil berthnasol a phrofiadau plant a phobl ifanc eu hunain;**
- **annog dull cydlynus o ymdrin â materion yn ymwneud â lles plant a phobl ifanc ar draws meysydd addysg, hyfforddiant a diogelwch cymunedol, er enghraifft, bwlio rhywiol, addysg rhyw a pherthnasoedd, addysg bersonol, cymdeithasol a iechyd;**
- **sicrhau bod llais plant a phobl ifanc o amrywiol gefndiroedd cymdeithasol a diwylliannol yn ganolog i'r broses.**

Rydym am sicrhau bod rhywioli a iechyd rhywiol yn bethau rydyn ni i gyd yn gyfforddus yn eu trafod. Bydd y grŵp yn cyflwyno ei ganfyddiadau a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2013.

However there is a need for more direction on complaints procedures within the guidance. I await the final draft of the guidance and hope that it will address some of the concerns I have outlined here and in my consultation response.

The consultation on this guidance closed in March 2012 and I have responded to this consultation.

#### Looking forward

— **I expect Welsh Government to closely monitor the implementation of this new guidance.**

## Sexually harmful behaviour

Last year I looked forward to the publication of an All Wales Protocol on Sexually Harmful Behaviour and called on duty bearers to review the services they commission to meet the needs of children and young people with sexually harmful behaviour. The 'All Wales Protocol: The Management of Young People engaged in sexually harmful behaviour' was issued for consultation in November 2011. The final draft has yet to be published. Once the protocol is published I will expect Welsh Government to plan for a review of its implementation.

## Trafficking

I am pleased that in 2011 the All Wales Protocol on Child Trafficking was issued. In welcoming the publication of the protocol the Minister noted the impact of my 'Bordering on Concern' report in 2009 and of the findings of the National Assembly's Cross Party Group on Human Trafficking in highlighting the issue. The appointment of the first All Wales Anti-Human Trafficking Coordinator was also significant. I understand that as a result of this appointment over 70 awareness raising sessions have been delivered to key stakeholders across Wales – this is a recommendation contained within 'Bordering on Concern'.

I have met with the All Wales Anti-Human Trafficking Coordinator and will continue to support his work in any way I can.

#### Looking forward

— **I am calling on Welsh Government to review the implementation of the new protocol.**

## Child sexual exploitation

The review of the implementation of the new Guidance on child sexual exploitation that I referenced in my report last year has now been undertaken. I am waiting for the publication of the results of this review and I will be providing Welsh Government with a written response to the findings.

## Sexualisation of children and young people

In June 2011 the Bailey Review of the Commercialisation and Sexualisation of Childhood was published. It was soon followed by a debate in the Senedd led by Jocelyn Davies AM called 'Let Children be Children' – it was the first time a debate had been secured for such matters in the National Assembly. In my response to that debate I called for an analysis of children and young people's views on the issues as the reviews to date had largely been driven by adult agendas.

A new cross party group – Childhood, Sexuality, Sexualisation and Equalities – was set up that autumn which aims to put equalities, children's rights and voice at the heart of the problem. Sitting as observers to that group, my officers will work closely with Cardiff University's School of Social Sciences and other members to:

- **develop and agree a definition of sexuality and sexualisation based on relevant research and children and young people's own experiences;**
- **encourage a joined-up approach to issues of children and young people's wellbeing across the fields of education and training and community safety, for example, sexual bullying, sex and relationship education and personal, social and health education; and**
- **place the voice of children and young people, from diverse social and cultural backgrounds at the hear of the process.**

We want to make sexualisation and sexual health something we're all comfortable talking about. The group will present its findings and recommendations to Welsh Government in Spring 2013.



## Nod 4: Cael mynediad i gyfleoedd chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol

### Chwarae

Fy marn i... Mae gan blant a phobl ifanc hawl i chwarae. Mae'n rhan bwysig o'u plentynod ac mae mynediad i chwarae yn effeithio ar ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc.

**Edrych yn ôl**  
Y llynedd bŵm yn disgwyl yn eiddgar am gyhoeddi rheoliadau, safonau a chanllawiau yng nghyswllt y dyletswyddau chwarae a gynhwyswyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Er fy mod yn siomedig ynghylch yr oedi cyn eu cyhoeddi, rwy'n deall bod rheoliadau, safonau a chanllawiau ynghylch y dyletswyddau cysylltiedig â chwarae ar fin cael eu cyhoeddi.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfarwyddyd angenrheidiol i awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu'r darpariaethau ar gyfer chwarae ym Mesur 2010. Mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol, rwy'n pryderu y gallai'r ddarpariaeth chwarae gael ei hystyried fel elfen ychwanegol, yn hytrach na hawl i bob plentyn.

#### Edrych ymlaen

— **Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro gweithrediad y dyletswyddau ar chwarae a gynhwyswyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.**

— **Rwy'n galw ar aelodau etholedig lleol ar lefel awdurdod lleol i ddarganfod beth sydd gan blant a phobl ifanc i'w ddweud am wireddu eu hawl i chwarae yn yr ardaloedd lle maent yn byw ac i hyrwyddo hawl plant a phobl ifanc i chwarae o'r cymunedau maent yn eu cynrychioli.**

### Diwylliant

Cyhoeddwyd adroddiad Estyn ar 'Mynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais mewn ysgolion: gweithio yn y gymuned a chyda gwasanaethau eraill' yn 2011. Nododd yr adroddiad fod ysgolion effeithiol mewn ardaloedd difreintiedig yn rhoi pwysau aruthrol ar ddarpariaeth allgyrsiol a'r tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys cyfoethogi diwylliannol.

Yn Lloegr dangosodd prosiect peilot 'Find your Talent' fod darparu profiadau diwylliannol o ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc yn gallu darparu ystod o sgiliau ar eu cyfer sydd yn eu helpu i gyflawni ar draws gwahanol feysydd yn eu bywydau. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill a ragnodwyd o ran tlodi plant. Crëwyd argraff arbennig arnaf gan y strategaeth a gynhyrwyd gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 'Gweddnewid Dyfodol Plant trwy greu llwybrau ar gyfer cyfranogiad diwylliannol'. Mae'r strategaeth yn cyflwyno agenda glir ar gyfer cynyddu mynediad i gyfleoedd diwylliannol ac addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n profi tlodi cyfranogiad, ac rwy'n edrych ymlaen at weld sut bydd gweithredu'r strategaeth hon yn gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc Cymru.

## Nod 5: Cael eu trin â pharch, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol

### Eiriolaeth

Fy marn i... Mae eiriolaeth yn chwarae rhan hollbwysig wrth alluogi plant a phobl ifanc i ymarfer eu hawliau fel yr amlinellwyd yn CCUHP.

**Edrych yn ôl**  
Yn adroddiad blynyddol y llynedd roeddwn yn edrych ymlaen at ganllawiau comisiynu terfynol gan Lywodraeth Cymru yn dilyn eu hymarferiad ymgynghori i sbarduno gwelliannau a chysondeb wrth ddarparu eiriolaeth. Mae'r canllawiau comisiynu terfynol yn dal heb eu cyhoeddi, er bod yr ymarferiad ymgynghori ar y canllawiau drafft wedi cau ym mis Ebrill 2011.

Nodais hefyd fy mhryderon ynghylch diffygion yn y system, a'm bwriad i gynnal adolygiad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen. Defnyddiais fy mhwerau am y tro cyntaf i gynnal yr adolygiad hwn, er mwyn gweld a yw'r trefniadau yn effeithiol, ac i ba raddau, o ran cryfhau a hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc a diogelu eu lles.

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad ym mis Mawrth 2012. Mae rhai o blant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed Cymru yn dal heb fod yn ymwybodol o'u hawl i gael eu barn wedi ei chynrychioli gan eiriolwr proffesiynol annibynnol. Bu Cymru ar y daith eiriolaeth ers dros 10 mlynedd, yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Waterhouse, ac eto mae'n ei chael ei hun heb gyfres glir o brofion pwysu a mesur i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â hawl i dderbyn eiriolaeth hefyd yn cael cyfle gwirioneddol i'w chyrchu.

#### Edrych ymlaen

— **Wrth i mi ysgrifennu hwn mae Llywodraeth Cymru wrthi yn ystyried argymhellion fy adolygiad, ac mae fy swyddfa yn cwrrd â swyddogion yn ei glych. Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i dderbyn a chyflawni'r argymhellion a wnaed gennyf trwy fy adolygiad. Rhaid i'r trefniadau ar gyfer cyfeiriad strategol clir ar eiriolaeth wella, a rhaid sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â hawl i dderbyn eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn derbyn yr hawl honno.**

— **Rwy'n galw ar awdurdodau lleol i dderbyn argymhellion fy adolygiad, a chyflwyno'r camau y byddant yn eu cymryd i ymateb i'r argymhellion.**

### Cyfranogiad

Fy marn i... Mae Erthygl 12 o CCUHP yn nodi bod gan bob plentyn hawl i leisio barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt a bod yr hawliau hynny'n cael eu cymryd o ddiffri.

**Edrych yn ôl**  
